Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Trwy Bob Dull Rhesymol

Mynediad lleiaf rhwystrol i'r awyr agored

Canllaw a gynhyrchwyd gan y Sensory Trust mewn cydweithrediad â, ac ar ran, Cyfoeth Naturiol Cymru

Hanes y ddogfen:

Fersiwn o'r ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi 2018	Cyhoeddi'r ddogfen
	Hydref 2022	Mân ddiwygiadau

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun - Gwener 8am - 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir ailgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Am beth mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn becyn cymorth wrth feddwl am gydraddoldeb mynediad i gefn gwlad a mannau agored ar gyfer pobl o bob oedran, amgylchiadau a chefndir.

Hefyd mae'n rhoi cymorth ymarferol i reolwyr cefn gwlad ac adnoddau naturiol i wella hygyrchedd eu safleoedd, llwybrau a'u cyfleusterau, yn enwedig ar gyfer pobl sydd ddim yn cael llawer o gyfle i fwynhau lleoliadau fel hyn.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

- Staff Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyrff sy'n darparu mynediad a hamdden awyr agored.

Cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored, ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad i'r Canllaw 6
Cyflwyno'r materion 7
Pwysigrwydd yr awyr agored 7
Deall amrywiaeth 7
Anabledd a mynediad i'r awyr agored 8
Manteision ymagwedd gynhwysol 9
Y fframwaith cyfreithiol 11
Fframwaith ar gyfer gweithredu 13
Mynediad Lleiaf Rhwystrol 13
Safonau mynediad 14
Y Gadwyn Fynediad 15
Cyfuno mynediad gydag ansawdd y profiad 17
Gweithredu'r fframwaith yn ymarferol 19
1. Polisi a strategaeth mynediad 19
2. Hyfforddiant 22
3. Ymwelwyr, pobl sydd ddim yn ymwelwyr a phatrymau defnydd 23
4. Ymgynghori ac ymgysylltu 24
5. Adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad 26
Cynllunio ar gyfer gweithredu 27
1. Penderfynu ymweld 27
Dangosyddion arfer dda 28
Datblygu gwybodaeth oddi ar y safle 28
2. Teithio a chyrraedd 30
Dangosyddion arfer dda 30
Gwella trafnidiaeth a chyrraedd safle 31
3. Profiad ar y safle: cyfleusterau 32
Dangosyddion arfer dda 32
Gwella cyfleusterau 33
4. Profiad ar y safle: digwyddiadau a gweithgareddau 34
Dangosyddion arfer dda 34
Gwella digwyddiadau a gweithgareddau 35
5. Profiad ar y safle: symud o gwmpas y safle 36
Dangosyddion arfer dda 37
Gwella llwybrau 37
Archwilio llwybrau 38
6. Profiad ar y safle: gwybodaeth a dehongliad 40
Dangosyddion arfer dda 41
Datblygu gwybodaeth ar y safle 41
Symbolau ac enwau 42
7. Dychwelyd adref 44
Dangosyddion arfer dda 44
Gweithredu 44
Gosod blaenoriaethau 44
Gwneud y gwaith 45
Cynnal a chadw 45
Gwerthuso a monitro 46
Atodiad 1: safonau a pharthau 47
Safonau Mynediad BARM 47
Parthau rheoli 47
Tabl 1: Safonau mynediad ar gyfer gwahanol barthau 48

Atodiad 2: Archwilio llwybrau 51
Cyfuniadau o feini prawf ar gyfer llwybrau 51
Atodiad 3: Enghraifft o gynllun gweithredu 54
Atodiad 4: Canllawiau cyhoeddedig 56
Mynediad i'r awyr agored a dylunio cynhwysol 56
Deddfwriaeth a dogfennau polisi 57
Atodiad 5: Cysylltiadau 59
Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyffredinol 59
Cydraddoldeb Oedran 59
Cydraddoldeb i bobl anabl, gan gynnwys dementia ac iechyd meddwl 59
Cydraddoldeb Rhyw 60
Cydraddoldeb mewn crefydd a chred 60
Cydraddoldeb hiliol 61
Cyngor a chyfarwyddyd ar Fynediad Awyr Agored 61
Atodiad 6: Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 63
Diolchiadau 65

Cyflwyniad i'r Canllaw

Mae'r canllaw hwn wedi'i greu fel rhan o ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i wneud yn siŵr bod mynediad i gefn gwlad a mannau agored ar gael yn gyfartal i bobl o bob oed, amgylchiadau a chefndir. Mae wedi'i gynllunio er mwyn helpu rheolwyr cefn gwlad ac adnoddau naturiol i wella hygyrchedd eu safleoedd, llwybrau a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer pobl sydd ddim yn cael llawer o gyfle i fwynhau lleoliadau fel hyn.

Mae'r canllaw yn ymateb i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan ddiweddaru ac ehangu'r ddogfen wreiddiol a gyhoeddwyd yn 2005 ac yn cynnwys mwy o amrywiaeth o ymwelwyr. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor bod gwelliannau mynediad o les i bawb, gan fod amrywiaeth mewn pobl o bob oedran, amgylchiadau personol a chefndir.

Y bwriad yw darparu agwedd realistig, ymarferol ac effeithiol tuag at welliannau mynediad, gan felly greu gwell mynediad mewn mwy o lefydd i fwy o bobl. Mae'r canllaw yn trafod sut i wneud llwybrau, safleoedd a chyfleusterau'n fwy hygyrch a sut i wella'r profiad mewn mannau sy'n hygyrch yn barod. Mae hygyrchedd yn cael ei drafod yn ei ystyr ehangaf, gan gynnwys yr holl nodweddion wedi'u diogelu sy'n cael eu nodi yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae wedi'i seilio ar yr egwyddor o Fynediad Lleiaf Rhwystrol (LRA) - egwyddor sy'n anelu at y safonau uchaf posibl ar gyfer unrhyw waith. Mae'n defnyddio'r Gadwyn Fynediad er mwyn trafod mynediad fel cadwyn o ddigwyddiadau sy'n dechrau, er enghraifft, yn y cartref pan mae'r ymwelydd yn penderfynu ymweld â safle neu lwybr, ac yn dod i ben pan fydd yr ymwelydd yn mynd adref ar ôl bod allan yn yr awyr agored.

Mae'r canllaw yn cydnabod yr amrywiaeth eang o bosibiliadau a chyfyngiadau sy'n wynebu tirfeddianwyr a rheolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys prinder adnoddau, y pwysigrwydd o gydbwyso mynediad gyda chadwraeth treftadaeth ddiwylliannol a naturiol a natur y dirwedd. Gan nad oes safonau statudol ar gyfer gwelliannau i fynediad yn yr awyr agored, mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwella mynediad. Mae hyn yn annog perchnogion tir a rheolwyr cefn gwlad ac adnoddau naturiol i nodi'r safonau a thechnegau hynny sydd fwyaf addas ar gyfer unrhyw sefyllfa.

Weithiau bydd rheolwyr cefn gwlad yn teimlo bod angen iddynt wybod popeth am ymwelwyr arbennig er mwyn gallu penderfynu pa welliannau mynediad sydd angen eu gwneud. Ond yr hyn sydd ei angen yn bennaf yw gwybodaeth dda o'r holl brofiadau y gallai'r safle eu cynnig a chyfathrebu'r rhain yn effeithiol. Nid gwneud yn siŵr bod gan bawb fynediad i'r un profiad yw'r nod, ond bod ansawdd profiad pob ymwelydd yn gyfartal. Bydd gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaeth mwy cynhwysol ar gyfer holl ymwelwyr y dyfodol.

Cyflwyno'r materion

Pwysigrwydd yr awyr agored

CNC

Mae digon o dystiolaeth o'r manteision i iechyd ac yn gymdeithasol o dreulio amser yn yr awyr agored. Mae mannau agored cyhoeddus yn rhan bwysig o fywyd cymunedau lleol ar hyd a lled Cymru. Mae bywyd cyhoeddus yn digwydd yn y mannau hyn, ac mae pobl yn cysylltu â'r byd naturiol ac â'i gilydd. Mae rhai mannau cyhoeddus neu lwybrau'n boblogaidd yn fwyaf arbennig fel mannau hamdden neu addysg, er bod llawer yn rhan bwysig o fywyd pob dydd - llwybr i'r siop leol er enghraifft. Mae manteision gweithgareddau awyr agored i iechyd a lles yn cael eu cydnabod a'u hyrwyddo fwy a mwy.

Ond mae tystiolaeth nad yw'r manteision hyn ar gael yn gyfartal i bawb, ac nad ydy mynediad i gefn gwlad a mannau agored yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pawb. Mae rhwystrau ffisegol i fynediad yn effeithio'n arbennig ar bobl sy'n byw gydag anabledd a phobl hŷn, tra bod rhwystrau seicogymdeithasol fel pryderon am ddiogelwch personol ac ansicrwydd ynglŷn â'r croeso yn cael eu teimlo'n aml gan ymwelwyr sy'n fenywod neu o grŵp du a lleiafrif ethnig er enghraifft. Mae gan bobl sydd dan anfantais gymdeithasol ac economaidd llawer iawn llai o fynediad i fannau fel hyn, yn enwedig pan fydd hynny'n gysylltiedig ag un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu.

Mae llawer o bobl sydd ddim yn gallu mwynhau manteision mannau fel hyn oherwydd diffyg cynllunio neu ymwybyddiaeth o'u hanghenion. Mae rhwystrau'n ymwneud â materion ffisegol ar safleoedd, fel camfeydd ac arwynebau anodd, ond mae rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol yn rhan fawr o'r sefyllfa ac mae angen i'r materion hynny gael sylw cyfartal.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio er mwyn eich helpu i adnabod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymweld â'ch safle, a sut i gael gwared ohonynt neu eu hosgoi, yn aml drwy newidiadau bychain o ran dylunio a rheoli.

Deall amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw o 'nodweddion wedi'u diogelu' fel fframwaith i'r ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu. Er bod hyn yn helpu i adnabod y mathau o bobl sy'n tueddu i gael eu heffeithio gan rwystrau i fynediad, mae'n gallu awgrymu bod amrywiaeth yn ymwneud â grwpiau penodol ac ar wahân o bobl yn y gymuned.

CNC

CNC

Roedd ymateb amrywiol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan rai sefydliadau. Mae cyfleusterau a gwasanaethau'n aml yn cael eu hyrwyddo'n fwy effeithiol ymhlith pobl gyda rhai nodweddion gwarchodedig yn fwy nag eraill. Er enghraifft, mae deunyddiau hyrwyddo'n aml yn dangos teuluoedd gyda phobl ifanc yn mwynhau'r awyr agored, ond ddim yn portreadu amrywiaeth ethnig, er enghraifft.

Y gwir yw bod amrywiaeth yn rhan o lawer iawn o deuluoedd, grwpiau o ffrindiau, cyplau ac unigolion. Mae nodwedd wedi'i diogelu yn gallu ymwneud â nain neu daid oedrannus mewn teulu, partner beichiog, ffrind sy'n ystyried ei hun yn drawsrywiol neu grŵp o fyfyrwyr sydd ag anableddau dysgu. Mae gan lawer o bobl fwy nag un nodwedd wedi'i diogelu, ac mae gwahanol nodweddion yn aml yn elwa o'r un gwelliant o ran mynediad.

CNC

Mae llawer o bobl yn ymweld gyda theuluoedd a ffrindiau, a bydd anawsterau mynediad yn effeithio ar y grŵp i gyd, nid ar yr unigolyn yn unig. Yn wir, dangosodd arolwg Visit Britain bod ffrindiau a theulu yn aml yn ymateb yn fwy negyddol i faterion mynediad na'r person sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol.

Dydy cydraddoldeb ddim yn golygu trin pawb yr un fath, ond yn hytrach parchu gwahaniaethau a dod o hyd i ffyrdd o wneud i bawb deimlo'n gartrefol a'u bod yn cael eu cefnogi. Mewn gwirionedd, yr hyn sydd ei angen fwyaf yw agwedd agored, gadarnhaol a chroesawgar a chyfathrebu a dealltwriaeth dda.

Dim ond rhan o wella mynediad yw gwneud newidiadau i ffabrig ffisegol eich safle. I rai, mae diffyg hyder a phrofiad o ymweld â chefn gwlad a mannau agored yn fwy o rwystr iddynt. Bydd meithrin perthynas agosach â grwpiau cymunedol lleol yn eich helpu i gysylltu gydag amrywiaeth ehangach o bobl. Er enghraifft, mae gweithio gyda grŵp rhyng-ffydd lleol yn gallu rhoi gwell dealltwriaeth i chi o sut y gallai pobl o wahanol ffydd fod â diddordeb mewn ymweld neu wirfoddoli, a'r hyn y gallai eich safle chi ei gynnig iddyn nhw.

CNC

Mae'r canllaw hwn yn annog ymagwedd gynhwysol tuag at bob proses gynllunio, dylunio a rheoli. Dydy hyn ddim yn golygu nad oes adegau pan mae angen atebion penodol ar gyfer gwahaniaethau penodol. Er enghraifft, mae canllaw mewn Braille o gymorth i ddarllenydd Braille gyda nam ar eu golwg. Ond po fwyaf o arferion cynhwysol y gallwch eu defnyddio wrth gynllunio a rheoli gwasanaethau, po fwyaf y bydd amrywiaeth yn cael ei ystyried fel rhan arferol o fywyd bob dydd ac nid fel 'darpariaeth arbennig'.

Anabledd a mynediad i'r awyr agored

Er bod y canllaw hwn yn trafod pob math o nodweddion sydd wedi'u diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n cydnabod mai pobl sy'n byw gydag anableddau sy'n â'r rhwystrau mwyaf i fynediad. Felly mae'r canllaw yn rhoi sylw penodol i wella mynediad ar gyfer pobl sydd ag anabledd, yn enwedig problemau symudedd.

CNC

Sensory Trust

Amcangyfrifir bod un person o bob pump yn y DU yn byw gydag anabledd. Byddai'r nifer yn uwch petai'n cynnwys yr holl bobl sy'n dioddef o nam dros dro fel torri asgwrn, cyflwr ar y galon neu flinder cyffredinol. Yn aml mae grŵp o ymwelwyr, gan gynnwys teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr, yn rhannu goblygiadau unrhyw anabledd. Dim ond 5% o bobl anabl sy'n defnyddio cadair olwyn, ac mae gan bobl o bob oed a chefndir bob math o anableddau corfforol, synhwyraidd a meddyliol.

Efallai nad yw pobl hŷn yn ystyried eu hunain yn anabl ond mae llawer o'r un rhwystrau yn effeithio arnyn nhw oherwydd bod ganddyn nhw lai o stamina, symudedd a chraffter synhwyraidd. Mae newidiadau demograffig yn golygu bod mwy o bobl hŷn yn y gymdeithas heddiw ac mae gan bobl wedi ymddeol fwy o incwm ac amser i'w wario ar weithgareddau hamdden. Mae llawer o'ch ymwelwyr yn debygol o fod wedi ymddeol. Rhaid ystyried anghenion y bobl hyn fel rhan o'r hyn sy'n cael ei drafod yn y canllaw hwn.

Efallai na fydd amgylchiadau personol yn amlwg i rywun arall, ond gall fod yn sylweddol o ran mynediad. Er enghraifft, bydd gan rywun sydd â chyflwr ar y galon ac sy'n mynd yn fyr o wynt wrth gerdded i fyny llethr, angen cyfleoedd i orffwys. Gall rhywun gyda dementia fod yn ddryslyd a bod angen gwybodaeth glir er mwyn ei helpu i ffeindio'i ffordd. Gall plentyn ag awtistiaeth gael ei lethu a bod angen lle tawel i ddod ato'i hun. Felly dydy hygyrchedd ddim yn dibynnu ar lwybrau a thoiledau o ansawdd da yn unig, ond yn hytrach ar gyfuniad gofalus o nodweddion eraill hefyd – mannau eistedd a chysgodi, gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd, cefnogaeth gan staff a gwirfoddolwyr, dŵr ar gyfer cŵn cymorth ayb.

Y nod yw sicrhau bod pawb yn gallu cael profiad sy'n werth chweil ac yn bleserus, sef cydraddoldeb profiad. Mewn gwirionedd, mae'n ddigon posibl na fydd pawb yn gallu cael yr un profiad yn union â'i gilydd. Er enghraifft, efallai bod rhywun gyda stamina cyfyngedig yn hoffi beicio, ond eu bod yn dewis llwybr mynediad hawdd yn hytrach na'r un mwyaf heriol. Gall hyn olygu y bydd angen i chi wneud addasiadau ar gyfer rhai aelodau o'ch cymuned. Fel y mae bwyty'n darparu ar gyfer gwahanol ddietau drwy roi dewisiadau ar y fwydlen felly hefyd y bydd digwyddiad neu weithgaredd hyblyg yn rhoi dewis o sut a phryd y mae pobl yn gallu cymryd rhan.

Manteision ymagwedd gynhwysol

Bellach, mae 'cynhwysol' yn cael ei ddeall yn gyffredinol fel term sy'n golygu y dylai gymaint o bobl ag y bo modd allu cymryd rhan mewn gweithgaredd neu ddefnyddio lleoliad. Felly, er enghraifft, yn hytrach na bod mynedfeydd ar wahân ar gyfer pobl ag anableddau, dylai pawb fod yn gallu dod i mewn yr un ffordd. Mae gwybodaeth sy'n hawdd

ei deall yn help i bawb, nid pobl â sgiliau llythrennedd isel neu heb Gymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf yn unig.

Mae byd hygyrchedd wedi newid yn sylweddol ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu creu ddeng mlynedd yn ôl. Fwyfwy mae deddfwriaeth yn cefnogi dyluniad cynhwysol, ac mae'n ofynnol mewn mwy a mwy o fanylder gan systemau cynllunio a rheoli adeiladu. Mae cyllidwyr yn disgwyl dyluniad cynhwysol ac mae canllawiau a manylebau dylunio ar gael yn hawdd. Ac efallai'n bwysicaf na'r rhain i gyd, mae gwneud lleoedd a gwasanaethau yn hygyrch i bob oed, gallu ac amgylchiadau yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel y peth iawn i'w wneud.

Dydy datblygu ymagwedd gynhwysol ddim yn ymwneud â'r defnydd o safleoedd awyr agored, llwybrau a chyfleusterau'n unig. Mae'n golygu creu gwell gwasanaethau, cynnwys mwy o bobl fel ymwelwyr a chefnogwyr, rhannu negeseuon gyda mwy o bobl a chael mwy o werth o'r buddsoddiad mewn gwaith ac adnoddau.

Mae manteision ymagwedd gynhwysol yn cynnwys:

- Cynulleidfaoedd newydd a mwy
- Syniadau gwell o ganlyniad i gynnwys amrywiaeth ehangach o bobl
- Mwy o foddhad ac ymgysylltiad ymwelwyr, a mwy o ymwelwyr yn dychwelyd
- Mwy o gyflogaeth a boddhad gan wirfoddolwyr
- Cyflawni gofynion gwleidyddol a chyfreithiol
- Perthynas gadarnhaol gyda chymunedau lleol a rhaglen allgymorth ehangach
- Defnydd mwy effeithiol o adnoddau drwy osgoi mesurau ad-hoc tymor byr

Mae codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cefn gwlad, mannau agored a chadwraeth natur yn ganolog i waith llawer o dirfeddianwyr a rheolwyr. Mae cynyddu hygyrchedd ac apêl gwybodaeth yn helpu i ledaenu'r negeseuon hyn i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol.

Astudiaeth achos: Cysylltu iechyd a mynediad i gefn gwlad drwy swydd arbenigwr ymarfer corff, wedi'i ariannu ar y cyd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn un o'r pedwar awdurdod isaf o ran disgwyliad oes, statws iechyd meddwl a chorfforol, a chyfraddau uchel o ordewdra a chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru. Felly mae'n ardal sy'n cael blaenoriaeth o ran mentrau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Yn 2008 cydweithiodd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan erbyn hyn) ac Adran Cefn Gwlad a Thirwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i greu rhaglen arloesol 'Calonnau Iach'. Roedd meddygon teulu'n cyfeirio cleifion â chlefyd coronaidd y galon i ddosbarthiadau ymarfer ac addysgu, a chynllun cerdded ar gyfer pobl oedd am gynyddu eu lefelau gweithgaredd corfforol allan yng nghefn gwlad.

Cost y cynllun oedd £60,000 y flwyddyn. Targedwyd pum ardal Cymunedau yn Gyntaf yn y Fwrdeistref ac yn ogystal ag arwain y teithiau cerdded, datblygodd yr Arbenigwr Ymarfer Corff lwybrau newydd, hyfforddodd 34 o wirfoddolwyr i fod yn arweinwyr cerdded, a chynhyrchodd lyfrynnau a'u dosbarthu mewn cyfleusterau cymunedol fel meddygfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Y fframwaith cyfreithiol

Fel sefydliad sydd biau ac sy'n rheoli mannau awyr agored yng Nghymru, mae gan CNC ddyletswyddau deddfwriaethol i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion wedi'u diogelu. Y tair deddfwriaeth allweddol yw:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CroW) 2000; a,
- Rhan M a BS 8300 o Reoliadau Adeiladu 2000.

Cyflwynodd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (DDA) y cysyniad o 'addasiad rhesymol' a rhoddodd hyn gyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb, annog mwy o gyfranogiad a dileu gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Mae'r dyletswyddau hyn bellach wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol' yn ôl y gyfraith yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa a chyda canlyniadau cyfraith achosion y dyfodol.

Mae gan CNC ddyletswyddau ychwanegol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy (SMNR) drwy bob agwedd o'u gwaith er mwyn gwneud y cyfraniad gorau posibl i'r nodau llesiant , fel y'u nodir yn y Ddeddf.

- Mae egwyddorion SMNR i'w gweld yn Atodiad 6.
- Mae'r Nodau Llesiant, y Ddeddf, a'r canllawiau statudol ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Mae ein hamcanion llesiant ni ar gael ar ein gwefan.

Rhaid i waith er mwyn lleihau anghydraddoldebau mynediad i gefn gwlad ymlynu at yr egwyddorion hyn a bod yn ymwybodol o gyfraniad mynediad a chyfleoedd hamdden i'r nodau llesiant.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb â dros 100 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth ynghyd, gan gynnwys Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, er mwyn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu o ran cyflogaeth ac yn y gymdeithas yn ehangach.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn unigolion rhag cael eu trin yn annheg o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth (cyflogaeth yn unig), hil, crefydd neu gred, rhyw a thuedd rhywiol. Gelwir y rhain yn 'nodweddion wedi'u diogelu'.

Nid yw anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei henwi fel nodwedd wedi'i diogelu yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Serch hynny, mae'n lleihau cyfleoedd pobl i archwilio cefn gwlad yn sylweddol. Mae ganddo hefyd gysylltiadau amlwg gyda rhai o'r nodweddion wedi'u diogelu, megis anabledd. Gall incwm isel olygu nad oes gan berson ddefnydd o gar, na'r arian sydd ei angen er mwyn teithio a bwyta. Mae'r canllaw hwn felly yn cynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol fel mater i CNC ymdrechu i fynd i'r afael ag ef o fewn cyd-destun amrywiaeth ehangach.

Nid yw'r newidiadau deddfwriaethol yn negyddu'r gwaith da a wnaed o ran deddfau fel y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ond yn hytrach, yn mynnu bod y gwaith yn cael ei ehangu er mwyn dod o fewn gofynion ehangach y Ddeddf Cydraddoldeb.

Fel sefydliad sydd biau ac sy'n rheoli lleoliadau awyr agored yng Nghymru, mae gan CNC ddyletswyddau o dan y Ddeddf i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion wedi'u diogelu. Mae sicrhau hyn yn debygol o gynnwys:

- **Newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau.** Adolygu a newid polisïau ac arferion arferol er mwyn gwella hygyrchedd.

Enghraifft: Dengys adolygiad o arferion gosod gatiau newyd yng nghefn gwlad bod angen newid y fanyleb ddylunio er mwyn ystyried maint cynyddol cerbydau symudedd mae defnyddwyr yn eu gyrru eu hunain.

- **Newid nodweddion ffisegol.** Addasu safleoedd er mwyn tynnu neu osgoi rhwystrau, a gwneud y safle'n hygyrch ar gyfer yr ystod ehangaf o bobl.

Enghraifft: Gosod seddi a mannau gorffwys yn amlach er mwyn galluogi pobl sydd â phroblemau iechyd ac anabledd sy'n effeithio ar stamina i ymweld â'r safle.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) yn gwella mynediad i'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr trwy roi hawl statudol i fynediad ar droed i fynyddoedd, gweundir, rhostir, twyndir a thir comin cofrestredig. Pan gyflwynwyd y ddeddf yn 2000, rhoddodd bwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd i awdurdodau priffyrdd ac eraill sy'n ymwneud â rheoli mynediad i gefn gwlad.

Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP) a'i adolygu bob 10 mlynedd. Rhaid ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddatblygu'r Cynllun hwnnw.

Wrth gynllunio gwelliannau a strwythurau newydd, mae'n rhaid i awdurdodau priffyrdd ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 gan geisio'u gwneud mor hygyrch â phosibl. Er enghraifft, newid camfeydd am fylchau neu giatiau gymaint ag y bo modd, ac fel arfer at ofynion BS5709. Efallai y bydd awdurdodau hefyd yn dod i gytundeb gyda thirfeddianwyr er mwyn gwella camfeydd, gatiau neu strwythurau eraill, naill ai mewn modd anffurfiol neu dan Ddeddf Priffyrdd A1980 x147ZA.

Rhan M a Safonau Prydeinig 8300 o'r Rheoliadau Adeiladu

Mae'r Rheoliadau Adeiladu'n gosod safonau statudol gofynnol ar gyfer dylunio ac adeiladu bron pob adeilad newydd ac addasiad yng Nghymru a Lloegr. Mae Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu'n nodi safonau gofynnol er mwyn sicrhau bod ystod eang o bobl yn gallu cael mynediad i adeiladau a'u cyfleusterau. Nid yw cydymffurfio â Rhan M yn golygu cydymffurfio â gofynion ehangach y Ddeddf Cydraddoldeb.

> "Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i alluogi unigolion i elwa o reoli amgylchedd Cymru'n gynaliadwy, waeth beth fo eu nodweddion fel unigolion, yn oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a rhiantu, hil, crefydd neu gred, rhyw (gwryw neu fenyw) neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw'r amrywiaeth ehangaf

> a mwyaf amrywiol o dalent ymysg ein staff er mwyn datblygu amgylchedd deinamig a chreadigol a fydd o fudd i'r cyfan o Cyfoeth Naturiol Cymru ac i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu."
>
> Cynllun Cydraddoldeb Strategol CNC 2015 – 2019.

Fframwaith ar gyfer gweithredu

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- **Mynediad Lleiaf Rhwystrol (LRA)** – egwyddor sy'n berthnasol i'n holl waith er mwyn sicrhau ei fod yn ymgyrraedd at y safonau uchaf posibl.
- **Safonau Mynediad i Bawb** a **pharthau Trwy Bob Dull Rhesymol (BARM)** – y safonau ymgynghorol a'r dull o rannu'n barthau a fabwysiadwyd yn fwyaf eang - ynghyd â safonau statudol sy'n ymwneud â dyluniad adeiladau
- **Y Gadwyn Fynediad** – offeryn sy'n defnyddio camau ymweliad er mwyn llywio penderfyniadau am welliannau i fynediad
- **Cyfuno mynediad gydag ansawdd y profiad** – egwyddor sy'n sicrhau bod pob gwelliant i fynediad yn cyfateb i'r blaenoriaethau ar gyfer profiad ymwelwyr

Mynediad Lleiaf Rhwystrol

Mae egwyddor Mynediad Lleiaf Rhwystrol yn mynnu bod pob gwaith, boed yn waith a gynlluniwyd neu'n waith cynnal a chadw byr-rybudd, yn cwrdd â'r safonau mynediad uchaf posibl ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'n ymagwedd sy'n helpu i godi safon mynediad i safle, llwybr neu gyfleuster yn gyffredinol dros amser.

Dydy LRA ddim yn ymwneud â mynediad ffisegol yn unig ac mae'n bwysig ystyried holl faterion hygyrchedd. Fydd hi ddim yn bosibl gwneud cefn gwlad i gyd yn gwbl hygyrch i bawb. Serch hynny, mae egwyddorion LRA yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu mynediad i'r awyr agored ymdrechu i'w wneud mor hygyrch â phosib i gymaint o bobl ag y bo modd.

Cyflawnir LRA drwy adnabod yr opsiwn lleiaf rhwystrol ar gyfer unrhyw nodwedd benodol, fel giât neu fwrdd dehongli. Fel y pwysleisiwyd yn BS5709 Bylchau, Gatiau a Chamfeydd nid yw hyn yn ymwneud â dewis y math o strwythur yn unig, ond hefyd sut i wneud a gosod y strwythur dewisol yn y modd lleiaf rhwystrol.

Mewn achosion lle na ellir cyflawni'r safonau mynediad uchaf - er enghraifft oherwydd prinder cyllid, diffyg caniatâd gan dirfeddiannwr neu anawsterau ymarferol, dylai bod cyfiawnhad wedi ei resymoli a'i ddogfennu'n glir yn esbonio'r penderfyniad i ddefnyddio safon is.

Pwynt Allweddol: Dylai Mynediad Lleiaf Rhwystrol fod yn feincnod yn ystod pob cam o'r Gadwyn Fynediad.

Enghreifftiau ymarferol o fynediad lleiaf rhwystrol

- Mae bwlch yn llai rhwystrol na giât, sy'n llai rhwystrol na camfa. Felly, pan fydd angen trwsio neu symud camfa, y dewis cyntaf yw rhoi bwlch yn ei le. Os nad yw hynny'n bosibl, yna giât. Y dewis olaf yw ail-osod camfa, gan sicrhau ei bod yn un sy'n cydymffurfio â BS5709. Mae nifer sylweddol o gamfeydd wedi cael eu tynnu fel hyn ledled Cymru. Mae Safonau Prydeinig ar gyfer Bylchau, Gatiau a Chamfeydd (BS:5709:2006) yn gyfeiriad pwysig.
- Mae taflen wedi'i hargraffu mewn ysgrifen maint 12-pwynt yn llai rhwystrol nag un mewn 8-pwynt, ac mae paneli dehongli sy'n cyfleu'r negeseuon mewn testun ysgrifenedig a delweddau clir yn llai rhwystrol nac un sy'n dibynnu ar destun ysgrifenedig yn unig. Mae bwydlen caffi gyda dewis da o fwyd yn llai rhwystrol nag un gyda dewis cyfyngedig.
- Mae cludiant cyhoeddus rhad ac am ddim yn llai rhwystrol na thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n codi tâl.

Safonau mynediad

Nid oes unrhyw safonau statudol ar gyfer gwella mynediad i gefn gwlad ac mae'r amrywiaeth enfawr yn nodweddion mannau agored a chefn gwlad yn ei gwneud yn anymarferol disgwyl yr un ateb ar gyfer pob man. Ond er hynny, mae safonau mynediad yn bwysig o ran meincnodi gwelliannau mynediad.

Roedd y canllaw BARM gwreiddiol yn defnyddio dwy set o safonau. Un oedd safonau Cefn Gwlad i Bawb (C4All) sy'n parhau i gael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer meincnodi gwaith mynediad newydd. Yr ail oedd y safonau ychwanegol a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad (Natural England erbyn hyn) ar gyfer safleoedd lle'r oedd yn afrealistig i ddisgwyl cyflawni safonau Cefn Gwlad i Bawb.

Yn y canllaw diwygiedig hwn, defnyddir yr un safonau ond eu bod wedi'u cyfuno er mwyn ei gwneud yn haws i reolwyr cefn gwlad eu defnyddio.

Datblygwyd y safonau hyn cyn cyflwyno'r Ddeddf Cydraddoldeb ac nid ydynt eto wedi'u hehangu i ymdrin â'r ystod lawn o nodweddion wedi'u diogelu.

Bydd yr hyn sy'n cael ei hystyried yn ddarpariaeth resymol o ran y gyfraith, yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa a chyda canlyniadau cyfraith achosion y dyfodol. Yr hyn a argymhellir yw, y dylai CNC anelu i ddarparu a hyrwyddo amrywiaeth o lwybrau a safleoedd, gydag ystod dda o leoliadau a chymeriad, mewn unrhyw ardal awyr agored.

Nid yw'n ymarferol gwneud cefn gwlad i gyd yn hygyrch i bawb. Y nod ddylai fod i sicrhau bod profiad o ansawdd cyfartal ar gael i bawb. Mae hyn yn golygu ystyried yr holl nodweddion wedi'u diogeli, gan ddeall beth sy'n cyfyngu ar fynediad pwy ar hyn o bryd, a blaenoriaethu gwelliannau sy'n rhoi'r canlyniadau mwyaf teg.

Safonau ar gyfer cefn gwlad a mannau agored

Gan nad oes safonau statudol sy'n berthnasol i welliannau mynediad i gefn gwlad a mannau agored, mae'r canllaw hwn wedi dewis safonau ymgynghorol ac egwyddorion sy'n

cael eu cydnabod yn eang fel rhai sy'n cynrychioli arfer orau. Mae hyn yn seiliedig ar y canlynol:

- **Safonau a chanllawiau Cefn Gwlad i Bawb**: fel meincnod ar gyfer gwelliannau i fynediad ffisegol.
- **Parthau rheoli a safonau BARM**: er mwyn nodi lefelau priodol o hygyrchedd ar gyfer gwahanol lwybrau a lleoliadau, ac ymestyn y safonau i safleoedd, sydd heb eu gwella, sydd ddim wedi'u cynnwys yn safonau Cefn Gwlad i Bawb.

Mae'r safonau a'r parthau rheoli yn ymwneud â llwybrau ac yn cael eu diffinio'n bennaf o ran mynediad ffisegol ar gyfer pobl â nam symudedd. Maent yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio gwelliannau mynediad, ond mae'n hanfodol bod unrhyw broses archwilio yn ystyried yr holl ystod o faterion, megis gwybodaeth, seddi a chysgod, yn ogystal â'r ystod ehangaf o bobl. Ceir cyfeiriadau defnyddiol, yn ychwanegol i'r canllaw hwn, yn **Atodiad 4**.

Safonau ar gyfer adeiladau a'r tir o'u cwmpas

Y safonau statudol sy'n ymwneud â dyluniad cynhwysol adeiladau ac o'u cwmpas yw:

- Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu
- Safonau Prydeinig 8300:2009 Dylunio adeiladau ac o'u cwmpas er mwyn diwallu anghenion pobl anabl. Cod Ymarfer.

Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer cynllunio cyfleusterau fel caffis a chanolfannau ymwelwyr. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r rheoliadau adeiladu'n berthnasol, mae'r rhain yn rhoi manylion gwerthfawr am nodweddion fel meysydd parcio, toiledau, canllawiau ac ati. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'r DDA, ac nid gofynion ehangach y Ddeddf Cydraddoldeb, felly mae'n bwysig cydnabod hyn wrth eu defnyddio, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae'r rheoliadau adeiladu yn berthnasol.

Y Gadwyn Fynediad

Pwynt allweddol: Pan fyddid yn cynllunio cyfleoedd mynediad dylid ystyried pob cam o'r 'Gadwyn Fynediad'.

Mae'r Gadwyn Fynediad [1] yn ymdrin â hygyrchedd o safbwynt ymwelydd. Mae mynediad yn gadwyn o ddigwyddiadau sy'n cychwyn gyda phenderfyniad rhywun i ymweld â safle neu lwybr, yna'r daith, cyrraedd, ymweliad â safle neu lwybr a'i gyfleusterau ac yna'r siwrnai adref. Os fydd unrhyw un o'r dolenni yn y Gadwyn Fynediad yn torri, yna gall yr ymweliad naill ai ddod i ben mewn modd anfoddhaol neu beidio digwydd o gwbl (Sensory Trust, 2005). Argymhellir ymgysylltiad cymunedol gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yn ystod pob cam o'r Gadwyn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan gymysgedd gyfoethog o brofiadau a safbwyntiau.

Fel arfer, mae'r penderfyniad i ymweld â safle neu lwybr yn cael ei wneud yn y cartref. Os nad oes digon o wybodaeth, neu os nad yw'r wybodaeth yn hygyrch, yna gall gwneud y penderfyniad fod yn anodd neu efallai na fydd yn cael ei wneud o gwbl. Mae'n annhebygol y bydd yr ymweliad yn digwydd os nad oes cludiant addas ar gael. Os yw'r safle'n anhygyrch i gryn raddau, gall yr ymwelydd deimlo'n rhwystredig ac efallai na fydd byth yn

[1] Am ragor o wybodaeth am y Gadwyn Fynediad http://www.sensorytrust.org.uk/information/factsheets/access_chain1.html

dychwelyd. Mae gwelliannau mynediad ynghlwm â phob dolen o'r Gadwyn Fynediad. Fel arall, bydd gwelliannau mynediad tameidiog yn debygol o gael eu tanddefnyddio neu beidio cael llawer o effaith.

Profiad ymwelydd	**Enghreifftiau o faterion i'w hystyried**
Penderfynu ymweld	Gwybodaeth am fynediad a chyfleusterau hygyrch Fformatau hygyrch a dewis o ieithoedd ar gael Deunydd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd yn rhoi argraff groesawgar a chynhwysol I ymwelwyr Cyhoeddusrwydd da gyda'r dosbarthiad wedi'i dargedu
Teithio a chyrraedd	Trafnidiaeth gyhoeddus/gymunedol Mannau parcio/gollwng hygyrch Mynedfa groesawgar gyda gwybodaeth am y lleoliad Mynediad am ddim i ofalwyr/cynhalwyr Cyfleusterau cynhwysol ee toiledau, cyfleusterau newid, caffis
Profiad ar y safle	Llwybrau ac arwyddo addas ar gyfer pob gallu Cynllunio digwyddiadau cynhwysol Gwybodaeth a dehongli hygyrch Cyfleusterau cynhwysol ee toiledau, cyfleusterau newid, caffis Profiadau cynhwysol ar gael ar gyfer ystod amrywiol o ymwelwyr
Dychwelyd gartref	Trafnidiaeth gyhoeddus/gymunedol Mannau parcio/pigo hygyrch Adborth a chyfranogiad yn cael ei annog Pecynnau gweithgareddau ar gael ar gyfer grwpiau – fformatau hygyrch a dewis o ieithoedd ar gael

Sensory Trust

Cyfuno mynediad gydag ansawdd y profiad

Mae gwneud gwelliannau mynediad heb ystyried ansawdd y profiad i ymwelwyr a ddaw yn eu sgil yn gallu bod yn wastraff adnoddau. Er enghraifft, bydd creu llwybr hygyrch i gadeiriau olwyn sy'n arwain oddi wrth uchafbwyntiau poblogaidd safle yn gwneud y llwybr yn bosibl, ond ddim o reidrwydd yn ei wneud yn atyniadol i ymwelwyr. Mae annog mwy o gymysgedd ethnig yn annhebygol o lwyddo os yw'r dehongliad yn canolbwyntio'n llwyr ar straeon cyfyng eu persbectif diwylliannol.

Mae'r elfennau canlynol yn allweddol i ymweliad cynhwysol llwyddiannus:

Croesawus a dymunol

Er mwyn sicrhau mynediad da i'r ystod o brofiadau sydd ar gael mae angen dealltwriaeth dda o'r nodweddion sydd gan y safle i'w cynnig a'r gwahanol ffyrdd y mae pobl am ymgysylltu â'r safle. Mae'n fanteisiol gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol, drwy o bosibl hwyluso rhai o'u digwyddiadau a'u gweithgareddau, a gwahodd pobl i roi adborth ar eich cynlluniau ac i ymuno fel gwirfoddolwyr.
- Ystyried profiadau sy'n defnyddio'r gwahanol synhwyrau, gan ddarparu uchafbwyntiau ar gyfer ymwelwyr â nam ar y synhwyrau a chyfoethogi profiad pobl yn gyffredinol.
- Meddwl yn ehangach am straeon y lle a sut y gallai gwahanol straeon fod yn berthnasol i bobl o wahanol gefndiroedd a phrofiadau.
- Rhoi cyfleoedd i bobl fwynhau'r safle fel rhan o grŵp, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer defnydd unigol a theuluol. Gall hyn helpu i groesawu pobl sy'n anghyfarwydd â mentro i'r awyr agored ac sydd angen y sicrwydd o ymweld fel rhan o grŵp cymdeithasol ehangach.

Cyfforddus

Er y gall rhai o'ch ymwelwyr fod yn chwilio am weithgareddau cyffrous, eithafol, ac am anturio yng ngwylltineb cefn gwlad, bydd y mwyafrif ohonynt eisiau amser braf, hamddenol. Bydd lleihau'r llethrau a'r grisiau, gan ddarparu llwybrau hawdd at uchafbwyntiau a darparu dewis o lwybrau o ran eu pellter yn helpu i ehangu apêl y safle.

Bydd darparu cysgod rhag y tywydd, digon o seddi a mannau gorffwys er mwyn galluogi pobl i archwilio rhannau o'ch safle, ynghyd â thoiledau hygyrch a chyfleusterau newid i gyd yn ychwanegu at bleser y profiad. Bydd cyfleuster Changing Places yn darparu tai bach a gofod newid ar gyfer teuluoedd a grwpiau sydd â phlant hŷn neu oedolion sydd ag anableddau difrifol a lluosog (gweler www.changing-places.org)

Cymdeithasol

Bydd llawer o ymwelwyr yn awyddus i rannu eu hymweliad gyda ffrindiau a pherthnasau felly mae'n bwysig cynllunio ar gyfer grwpiau o wahanol faint wrth gynllunio cyfleusterau fel mannau picnic, seddi a chysgod. Bydd bod yn barod i dderbyn ystod eang o weithgareddau cymdeithasol yn helpu i ddenu mwy o amrywiaeth o grwpiau.

Astudiaeth Achos: herio eich ffiniau

Sefydlwyd prosiect Darganfod Dolgellau, Herio eich Ffiniau mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gyda'r nod o ddatblygu a hyrwyddo beicio mynydd addasol fel camp yn rhanbarth De Eryri, ardal sydd eisoes â thraddodiad cryf o feicio mynydd (MTB).

Mae'r prosiect, a leolir yng Nghoed y Brenin, canolfan feicio mynydd enwog Cyfoeth Naturiol Cymru ger Dolgellau, yn darparu offer a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu reidwyr gydag anabledd fel eu bod yn gallu gwneud teithiau annibynnol neu led-annibynnol oddi ar y ffordd.

NRW

Mae Llwybr Minotaur, a gwblhawyd ddiwedd 2013, wedi'i adeiladu'n ddigon llydan er mwyn i dreiciau a beiciau pedair olwyn beicio mynydd wedi'u haddasu allu teithio'r holl ffordd ar ei hyd, gan ei wneud yn gyfleuster unigryw ym Mhrydain. Ond peidiwch â meddwl fod hwn yn llwybr pob gallu; mae yna ddringo sylweddol, corneli gyda chantelau (cyfres o 10 gefn wrth gefn yn yr adran 'Slipway' yn unig) a disgynfeydd. Mae'r MinorTaur yn lle gwych i ddysgu a gwella'ch sgiliau reidio oddi ar y ffordd, ond bydd beicwyr abl ac anabl fel ei gilydd, angen rhywfaint o ffitrwydd, sgiliau a dewrder er mwyn ei gwblhau mewn steil.

Gweithredu'r fframwaith yn ymarferol



1. Polisi a strategaeth mynediad

Mae gweithredu'n gynhwysol yn dibynnu ar newid agweddau a'r ffordd o wneud pethau, yn ogystal â gwneud newidiadau ymarferol ar lawr gwlad. Mae polisi yn set o weithgareddau sy'n anelu tuag at nodau neu amcanion cyffredinol; er enghraifft, ymrwymiad sefydliad i wella mynediad. Mae strategaeth yn nodi sut y bydd y bwriadau hyn yn cael eu cyflawni. Wrth ddatblygu polisi a strategaeth, mae'n bwysig pennu anghenion a dyheadau pobl leol ac ymwelwyr a chynnwys amrywiaeth o bobl fel partneriaid datblygu. Bydd mabwysiadu dull o'r fath yn helpu sefydliadau i weithio'n fwy cynhwysol.

I Awdurdodau Priffyrdd, mae polisïau newydd yn debygol o fod o fewn eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn bennaf. Fodd bynnag, dylid cynnwys meysydd polisi eraill awdurdodau lleol, megis newidiadau i bolisïau cyfle cyfartal, cynllunio, trafnidiaeth gyhoeddus, Teithio Llesol, twristiaeth, hamdden ac adloniant fel diwygiadau i bolisïau, ac mae'r rhain hefyd yn debygol o fod yn ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod gan bartneriaid, megis awdurdodau lleol eraill a chyrff gwirfoddol, bolisïau sy'n cefnogi ymagwedd gadarnhaol tuag at gadwraeth a mynediad. Gallai fod yn fuddiol i dirfeddianwyr sy'n awyddus i wella mynediad ar eu tir preifat adolygu polisïau'r awdurdodau lleol, gan y gallai agor drysau i'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol.

Datblygu polisi

Mae Polisïau Mynediad yn bwysig gan mai dyma gyd-destun arferion gwaith effeithiol. Gellir eu creu ar gyfer y sefydliad cyfan, neu ar gyfer safleoedd unigol. Mae'n bwysig bod y staff i gyd yn deall eu bod yn rhan bwysig o ffurfio a chymhwyso'r rhain ac y dylent gymryd rhan yn eu drafftio a'u hadolygu'n rheolaidd. Dylai polisïau ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu a'r rhai sy'n cael budd ohonynt. Dylent gwmpasu'r tair elfen ganlynol:

Pam: Y prif resymau dros wella mynediad

Beth: Datganiad clir o'r hyn y mae'r polisi'n gobeithio ei gyflawni. Materion allweddol:

- Sicrhau bod pobl yn cael dewis ynglŷn â ble, pryd a sut y byddant yn gallu mwynhau'r awyr agored.
- Anelu at wasanaethau integredig lle y bo modd, gyda chefnogaeth benodol.

Sut: Y meysydd allweddol lle bydd camau yn cael eu gweithredu. Gall y rhain gynnwys:

- Pa adnoddau fydd ar gael er mwyn cyflawni amcanion y polisi.
- Ymrwymiad i ymgynghori â defnyddwyr presennol a rhai sydd ddim yn defnyddio'r llwybrau, safleoedd a chyfleusterau cefn gwlad.
- Ymrwymiad i hyfforddi staff a, lle y bo'n briodol, pobl o sefydliadau partner a grwpiau cysylltiedig megis Cyfeillion.
- Ymrwymiad i fonitro a gwerthuso gweithrediad y polisi a'i addasu yn ôl yr angen.

Dylid dosbarthu Polisi Mynediad drafft i ystod gynrychioliadol o sefydliadau ac unigolion. Mae awgrymiadau ar gyfer cysylltiadau cenedlaethol yn Atodiad 5, ond dylid cynnwys rhai lleol hefyd. Dylai pobl gael gwybodaeth gyson am yr hyn a ddeilliodd o'u hadborth a dylai hyn hefyd gynnwys esboniad ynglŷn â pham nad oedd yn bosibl gweithredu rhai o'r awgrymiadau. Bydd ymgynghori dilynol yn werthfawr er mwyn diweddaru polisïau yn unol â newidiadau mewn pryderon a diddordebau lleol.

Strategaeth mynediad

Dylai strategaeth mynediad gymryd i ystyriaeth faint o amser, adnoddau staff ac arian sydd ar gael er mwyn gweithredu'r polisi. Mae strategaeth gyntaf gweithredu'r polisi newydd yn debygol o gael ei chyhoeddi'r un pryd â'r polisi ac felly gellir ymgynghori'r un pryd.

Mae strategaethau'n debygol o gael eu gweithredu dros gyfnod o 3 neu 5 mlynedd, tra bo'r polisi'n debygol o fod yn berthnasol am gyfnod hwy. Bydd cynnwys y strategaeth yn dibynnu ar ble mae'r sefydliad o ran y broses o weithredu'r polisi. Os mai dyma'r strategaeth gyntaf ar gyfer gweithredu polisi, yna'n fras, dylai'r amcanion fod yn debyg i'r rhai a amlinellir isod:

- I gynllunio gwelliannau i safleoedd, a chyfleusterau a gwasanaethau cysylltiedig.
- I flaenoriaethu llwybrau ar gyfer eu harchwilio.
- I archwilio llwybrau safleoedd a chyfleusterau a gwasanaethau cysylltiedig a flaenoriaethwyd.
- I bennu a blaenoriaethu gwelliannau i lwybrau.
- I bennu a blaenoriaethu gwelliannau i gyfleusterau a gwasanaethau cysylltiedig.
- I flaenoriaethu, cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth.
- I wneud gwelliannau i lwybrau, safleoedd, cyfleusterau a gwasanaethau.

- I wella hygyrchedd llwybrau sydd heb eu blaenoriaethu pan fo'r cyfleoedd yn codi, fel yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol.
- I fonitro a gwerthuso gwelliannau i fynediad.

Esiampl: datblygu polisi mynediad

Er mwyn archwilio gofynion a safbwyntiau lleol, rhannodd Prosiect Peilot Cyngor Sir Lancashire holiadur gydag unigolion anabl, gan gynnwys y rhai hynny oedd yn y Lancashire Disability Information Federation Directory, grwpiau awyr agored (ee Cymdeithas y Cerddwyr) a chynrychiolwyr o'r Lancashire Access Forum a Fforwm Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Derbyniwyd ymatebion gan 41% o'r rhestr bostio, ac fe gymerodd llawer ohonynt ran mewn gweithdai diweddarach. Fe wnaeth y Prosiect ymgynghori yn y ffyrdd canlynol:

- Rhoddwyd y ddogfen ddrafft polisi mynediad ar dudalennau gwe cefn gwlad a mynediad y cyngor.
- Danfonwyd copïau o'r polisi drafft i randdeiliaid a ymatebodd i lythyr blaenorol a holl staff cefn gwlad a hawliau tramwy o fewn y Cyngor.
- Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm Anabl – oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o grwpiau anabl – gan ddilyn hyn â thrafodaeth byr ar rai o'r materion a godwyd.
- Danfonwyd copi o'r polisi drafft i holl aelodau o Lancashire Local Access Forum. Rhoddwyd cyflwyniad a thrafodwyd rhai o'r materion a godwyd yng nghyfarfod y Lancashire Local Access Forum.
- Trefnwyd gweithdy lle gwahoddwyd pawb yr ymgynghorwyd â nhw ar y ddogfen polisi drafft.

Cododd yr ymgynghoriad faterion ar gyfer eu trafod ymhellach a gofynnwyd i'r Lancashire Access Forum roi cyngor ar y ffordd orau i ymgynghori ymhellach.

Dylid clustnodi cyllid ar gyfer gweithredu'r camau a amlinellir yn y strategaeth ar y dechrau. Fodd bynnag, gallai ceisio arian pellach er mwyn gweithredu rhagor o welliannau fod yn amcan arall.

Adolygu polisïau a strategaeth
Argymhellir y dylid adolygu cynlluniau gweithredu sydd yn y strategaeth yn flynyddol, a strategaethau a pholisïau bob tair neu bum mlynedd gan ddibynnu ar lwyddiant monitro a gwerthuso. Mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Awdurdodau Priffyrdd, yn debygol o fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer Awdurdodau Priffyrdd. Yn fwy cyffredinol, gall Fforymau Mynediad Lleol fod yn werthfawr wrth adolygu gwybodaeth.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb (EqIA) yn adolygu effaith polisi neu wasanaeth ar wahanol grwpiau o bobl. Dylai EqIA fod yn rhan o ddatblygu ac adolygu polisïau ac arferion.

Cynhaliwyd EqIA [2] CNC mewn chwe safle allweddol i ymwelwyr yng Nghymru gan Phil Chambers Consultancy ar y cyd â Equality Gold ac EurEauWeb fis Mehefin 2016. Mae'n enghraifft dda o EqIA ac yn darparu cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol am wneud safleoedd yn fwy hygyrch.

Datganiadau Dylunio a Mynediad
Ers 2009 mae Datganiad Dylunio a Mynediad wedi bod yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. Mae'r datganiad yn esbonio sut y bydd y datblygiad mor hygyrch â phosibl o fewn cyd-destun y cynllun, y safle a'r ardal gyfagos.

Asesiadau Effaith ar Iechyd
Mae Asesiadau Effaith ar Iechyd (HIA) wedi cael eu datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae HIA yn nodi effeithiau positif a negyddol posibl unrhyw ddatblygiad, polisi neu ddefnydd tir arfaethedig. Mae'n awgrymu sut i leihau effeithiau negyddol, a gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer gwneud lles i iechyd.

Bydd CNC yn gweithredu'r rhain ar strategaethau, prosiectau, rhaglenni ac ati, ac yn fuan disgwylir y bydd gofyniad cyfreithiol ar i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wneud hynny, fel y nodir yn y Mesur Iechyd Cyhoeddus Cymru www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=522

2. Hyfforddiant

Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith staff a gwirfoddolwyr yw un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gall sefydliad ei wneud er mwyn cynnal gwelliannau mynediad. Mae'n rhaid i staff sy'n ymwneud â datblygu polisïau a strategaethau ddeall materion mynediad cyn dechrau cynllunio'r broses o wella cyfleoedd mynediad yng nghefn gwlad. Felly mae hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol.

Dylai hyfforddiant fod yn barhaus ac yn gysylltiedig â mathau eraill o ddatblygu sgiliau, megis Iechyd a Diogelwch a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd angen i'r holl staff a chontractwyr allanol sy'n ymwneud â darparu'r hyn a gynhwysir yn y strategaeth gael hyfforddiant tebyg cyn i'w rhan yn y broses ddechrau.

Mae cyrsiau hyfforddi yn debygol o gynnwys sesiynau am:
- Oblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 a CRoW i berchnogion a rheolwyr cefn gwlad
- Sut i gynnwys ac ymgynghori â phobl leol
- Parthau rheolaeth a safonau
- Archwiliadau mynediad
- Cynlluniau Mynediad a'r Broses Gynllunio
- Darparu gwybodaeth
- Gwerthuso

Mae peth o'r hyfforddiant mwyaf effeithiol i'w gael trwy weithio ac ymgynghori â phobl o wahanol oedran, gallu a chefndir.

[2] https://www.naturalresourceswales.gov.uk/media/679859/equality-impact-assessment-exec-summary-welsh.pdf

Hyfforddiant sefydlu
Does dim disgwyl i hyfforddiant sefydlu ymdrin â materion amrywiaeth yn fanwl ond gall ddangos ymrwymiad sefydliadol. Mae angen i weithwyr a gwirfoddolwyr newydd wybod bod staff ar y lefel uchaf yn ystyried ymagwedd gynhwysol fel rhan hanfodol o'r sefydliad, nid ychwanegiad, ond yn hytrach, rhan annatod o waith pawb. Dylai hyfforddiant sefydlu ysbrydoli pobl, rhoi rhwydd hynt iddynt gymryd y mater o ddifrif a gosod lefel o ddisgwyliad ynglŷn â'r prosiect.

Hyfforddiant amrywiaeth
Rydym yn awgrymu bod hwn yn canolbwyntio ar brofiad yr ymwelydd, er mwyn helpu timau i sylweddoli amrywiaeth oedrannau a galluoedd ymwelwyr a ffyrdd ymarferol o helpu er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ymweliad ardderchog.

Mae'n bwysig blaenoriaethu timau sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli profiad ymwelwyr, felly ceidwaid/wardeiniaid, arweinwyr gweithgareddau, staff manwerthu a rheoli yn arbennig, ond hefyd yr uwch reolwyr. Dylai'r sesiynau fod yn ymarferol, gan arwain timau drwy'r broses o adnabod a datrys problemau eu hunain, er mwyn eu harfogi i barhau â'r dull hwn o weithredu yn eu gwaith.

Y ddelfryd yw cynnwys pobl sy'n gallu cynrychioli safbwyntiau a phrofiadau'r gwahanol nodweddion wedi'u diogelu.

Hyfforddiant iaith arwyddion
Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw'r drydedd iaith frodorol a ddefnyddir amlaf yn y DU, ar ôl y Gymraeg a'r Saesneg. Amcangyfrifir bod 250,000 o bobl yn y DU yn defnyddio BSL sy'n iaith wahanol, nid fersiwn o'r Gymraeg neu'r Saesneg gydag ystumiau. Bydd buddsoddi mewn hyfforddiant BSL yn croesawu ac annog mwy o bobl sy'n drwm eu clyw i gyfranogi fel ymwelwyr, gwirfoddolwyr a staff.

Bydd hyfforddiant Cam 1 BSL yn rhoi digon o sgiliau i staff gynnal sgyrsiau sylfaenol â defnyddwyr BSL. Er nad yw hyn yn disodli'r angen am logi cyfieithwyr BSL ar gyfer digwyddiadau arbennig, gall fod yn ddull effeithiol o wella'r croeso ar gyfer pobl â nam ar eu clyw. Bydd hyfforddiant Cam 2 BSL yn galluogi staff i sgwrsio'n ehangach ac yn gydnabyddiaeth wych o BSL fel iaith a gefnogir.

Mae'n bwysig cofio, tra bod BSL yn brif iaith nifer sylweddol o bobl sydd wedi colli eu clyw, ynghyd â'u teuluoedd a'u cyfeillion, nad yw'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o bobl sy'n drwm eu clyw, yn enwedig pobl sydd wedi colli eu clyw yn ddiweddarach yn eu hoes. Felly mae ystyriaethau dylunio cynhwysol eraill yn bwysig. Er enghraifft, darparu gwybodaeth hygyrch, gan osgoi dibynnu ar wybodaeth acwstig (e.e. larymau tân) a chreu ciwiau gweledol a chyffyrddol da ar gyfer ffeindio'r ffordd a dehongli.

3. Ymwelwyr, pobl sydd ddim yn ymwelwyr a phatrymau defnydd
Does dim safle na llwybr yn bodoli mewn gwagle, ac mae adnabod lleoliad a natur y cymunedau cyfagos - ardaloedd preswyl, ysgolion, tai gwarchod ac ati - yn rhoi darlun defnyddiol ar gyfer patrymau tebygol o ddefnydd a datblygu rhwydweithiau llwybrau hygyrch.

Mae'n bwysig adolygu sut mae'r safle, llwybr neu rwydwaith llwybrau yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r un mor bwysig ystyried pwy sydd ddim yn ymweld, a'r rhesymau pam. Mae rhai pobl yn mwynhau'r profiad o fynd am dro hamddenol, mae eraill yn mwynhau

archwilio, ac eraill wrth eu bodd yn ymweld ag atyniad neu leoliad arbennig. I nifer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gall llwybrau cyhoeddus neu lwybrau beicio fod yn llwybrau i'r gwaith, yr ysgol neu'r dafarn leol. Mae'n bwysig gwybod sut mae safleoedd a llwybrau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a faint mae pobl yn eu gwerthfawrogi.

Agweddau i'w cynnwys yn yr adolygiad	Disgrifiad	Technegau
Cymunedau lleol	Grwpiau a allai gymryd rhan fel gwirfoddolwyr, grwpiau ffocws neu fod yn ymwelwyr y dyfodol, megis cymunedau i bobl wedi ymddeol, ysgolion, canolfannau dydd, canolfannau gofal iechyd	• Cael gwybodaeth gan dîm cymunedol yr awdurdodau lleol. • Ymgynghori er mwyn cael gwybod sut y byddai pobl yn hoffi defnyddio'r safle neu'r ardal
Defnyddwyr presennol	Pwy sy'n defnyddio'r safle, llwybr neu rwydwaith ar hyn o bryd, pam eu bod yn ymweld, ac ar gyfer beth y maent yn ei ddefnyddio? I ba raddau mae'r bobl hyn yn adlewyrchu'r gymuned leol o ran oed, anabledd a chefndir?	• Edrych ble mae'r cymunedau hyn ar fap a chysylltu â nhw. • Ymgynghori er mwyn cael gwybod sut y byddai pobl yn hoffi defnyddio'r safle neu'r ardal
Patrymau defnydd	A oes defnyddwyr presennol neu fathau o ddefnydd sy'n anodd eu hintegreiddio, e.e. reidio beic, marchogaeth? Pryd a sut mae'r safle'n cael ei ddefnyddio?	• Arolwg safle ar wahanol ddyddiau, adegau o'r dydd a thymhorau. • Ymgynghori â phobl leol, gan gynnwys pob math o ddefnydd
Pobl sydd ddim yn ddefnyddwyr	Pwy sydd ddim yn defnyddio'r safle, llwybr neu rwydwaith ar hyn o bryd, a pham	• Dosbarthu holiadur yn lleol (ac yn ehangach ar gyfer safleoedd sy'n denu twristiaid). • Ymgynghori â phobl leol

4. Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae gofyn barn pobl sydd â diddordeb mewn llwybr, safle neu gyfleuster penodol yn ffordd effeithiol o sicrhau bod cynlluniau a chamau gweithredu yn targedu anghenion a dymuniadau go iawn bobl leol. Mae hefyd yn gyfle da i egluro pwysigrwydd cydbwyso gwell mynediad gydag amcanion eraill, megis cadwraeth natur a nodweddion y dirwedd.

Mae'n bwysig cynnwys amrywiaeth o bobl sy'n cynrychioli'r gymuned leol, ynghyd â'r boblogaeth ehangach os yw'r safle neu'r llwybr yn denu pobl o ymhellach i ffwrdd. Gall cynnwys ymwelwyr posibl helpu i feithrin ymdeimlad cynnar o berchnogaeth a chyfranogiad, gan helpu i annog pobl i wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau pan fyddant wedi'u sefydlu.

Mae ymgynghoriad effeithiol yn dibynnu ar wneud y digwyddiadau ymgynghori'n hygyrch a gosod ffiniau clir, gan gynnwys:

- Pam bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal a beth a ddisgwylir o ganlyniad iddo.
- Nodi ardaloedd sydd â gwerth treftadaeth arbennig a rhai sydd â fawr o opsiynau o ran symud neu addasu nodweddion ffisegol.

- Faint o adnoddau sydd ar gael i gefnogi syniadau newydd a gwelliannau.
- Amcangyfrifon realistig o gost y gwaith cyfalaf a/neu refeniw.

Bydd ymgysylltiad cymunedol yn helpu i nodi rhwystrau i fynediad a chreu syniadau ar gyfer gwelliannau, a gall hefyd helpu i feithrin cefnogaeth gan y gymuned leol. Mae'n bwysig ymgynghori mor eang â phosibl, o ddechrau'r broses gynllunio, wrth wneud y gwaith ffisegol a gwerthuso ac adolygu'r gwaith ar ddiwedd y broses.

Dylid ymgynghori ag ymwelwyr ac ymwelwyr posibl ynglŷn â'r hyn y maent yn ei wneud neu yr hoffent ei wneud ar y safle, a darganfod uchafbwyntiau'r safle. Mae gwahodd pobl gyda gwahanol nodweddion i asesu nodweddion y safle gyda chi yn ffordd gost-effeithiol o wneud hyn. Bydd yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r safle ac yn dangos y ffordd orau o sicrhau bod ei gyfoeth ar gael i ymwelwyr. Dylai hefyd helpu i nodi pa rwystrau y dylid mynd i'r afael â nhw'n gyntaf.

Mae gan geidwaid, tywyswyr ac eraill sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ag ymwelwyr yn aml syniadau da ynglŷn â gwelliannau mynediad. Bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o:
- Yr ystod o bobl sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd, ac yn aml byddant yn gwybod i ba raddau y mae hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth leol.
- Pa lwybrau sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n dda a chan bwy.
- Topograffeg yr ardal.
- Cyflwr presennol y llwybr a llwybrau cysylltiedig.
- Cyfyngiadau tirwedd.
- Defnydd y tir ac agwedd rheolwr y tir tuag at fynediad.
- Cyfleusterau cysylltiedig yn lleol.

Mae'n bwysig nad yw'r ymgynghori er mwyn sioe yn unig a bod y cysylltiad yn cael ei gynnal gyda phobl wedyn, fel eu bod yn gwybod bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Un o'r beirniadaethau mwyaf cyffredin gan bobl sydd wedi rhoi o'u hamser i rannu eu barn yw nad ydynt byth yn clywed beth ddigwyddodd o ganlyniad i'w cyfraniad.

Mae cofnodi penderfyniadau'n bwysig ac yn aml yn cael ei anwybyddu. Mae'n bwysig gwybod pam bod dulliau'n cael eu dewis, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, pwy ymgynghorwyd â hwy a pha ganllawiau a ddefnyddiwyd. Mae'r cofnod hwn hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer staff newydd, ac er mwyn cefnogi penderfyniadau, petaent yn cael eu herio'n ddiweddarach.

Esiampl: manteision ymgynghori

Rhestrodd Hadrian's Wall National Trail Pilot Project y manteision canlynol i ymgynghori:
- Rhoi mewnbwn o wybodaeth lleol ac arbenigol ar ymddygiad a dewisiadau
- Creu ewyllys da ymhlith grwpiau defnyddwyr
- Darparu cysylltiadau da y gellir eu cymhwyso mewn mannau eraill
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr posib

Sut i ddod o hyd i bobl

Mae rhestro o ffynonellau cysylltiadau posibl yn Atodiad 5. Yn ogystal â pherchnogion, rheolwyr a defnyddwyr cefn gwlad, mae mewnbwn proffesiynol yn rhoi mewnwelediad

arbenigol gwerthfawr i bosibiliadau dylunio a rheoli, yn esbonio gwerth treftadaeth ardal a dehongli goblygiadau gwahanol awgrymiadau.

Gellir ymgynghori â gweithwyr proffesiynol megis haneswyr, swyddogion awdurdodau priffyrdd, peirianwyr, gweithwyr cadwraeth proffesiynol a phenseiri tirwedd.

Dylai cynllunio gynnwys meithrin perthnasoedd gyda pherchnogion tir eraill, cwmnïau cludiant, adrannau priffyrdd ac asiantaethau eraill er mwyn hwyluso gwelliannau mynediad ar hyd y Gadwyn Fynediad. Mae'n bwysig ymgynghori â'r ystod ehangaf posibl o bobl, gan gynnwys rhai sydd â'u hanghenion neu ddymuniadau o bosibl yn gwrthdaro ag anghenion grŵp arall.

5. Adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad

Gall rhwystrau leihau neu atal mynediad i rai ymwelwyr, yn enwedig pobl â symudedd cyfyngedig, neu rai nad ydynt yn hyderus yn ymweld â lleoedd anghyfarwydd. Mae'r rhwystrau i fynediad yn niferus ac amrywiol, o ddiffyg gwybodaeth ac arwyddion gwael i lethrau serth, arwynebau anwastad a phellteroedd hir.

Mae archwilio neu adolygu nodweddion safle neu lwybr yn hanfodol er mwyn nodi'r rhwystrau a pha welliannau fyddai'n rhoi'r manteision mwyaf o ran gwella cyfleoedd a phrofiadau ymwelwyr. Mae'n bwysig gweithio gyda gwahanol bobl fel partneriaid datblygu a chynnal deialog drwy gydol unrhyw brosiect. Mae hyn yn sicrhau bod y disgwyliadau'n parhau i fod yn realistig a bod y prosiect yn darparu manteision gwirioneddol.

Mae tri math o rwystr sy'n lleihau nifer yr ymweliadau â'r awyr agored yn gyffredinol:

1. Rhwystrau seicogymdeithasol

Mae'r rhain yn ymwneud â chanfyddiad pobl o le, ac o ryngweithio â phobl eraill. Maent yn cynnwys pryderon am ddiogelwch personol, diffyg hyder, teimlo nad oes croeso, nad ydynt yn gallu cerdded ymhell neu am fynd ar goll. Gall y teimladau hyn gael eu dwysáu gan brofiadau negyddol, er enghraifft ymddygiad gwrthgymdeithasol ymwelwyr eraill.

Ymateb: Darparu gwybodaeth ddibynadwy a pherthasnol fel y gall pobl feirniadu ar sail gwybodaeth real, ac nid tybiedig. Cysylltu gyda grwpiau lleol i adeiladu ymddiriedaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael.

2. Rhwystrau ffisegol

Mae'r rhain yn ymwneud â nodweddion y safle, megis grisiau, llethrau serth, camfeydd ac ati Maent hefyd yn cynnwys diffyg seddi, toiledau hygyrch, caffis a chyfleusterau eraill ar gyfer ymwelwyr. Gall diffyg cynnal a chadw ddwysáu'r problemau hyn.

Ymateb: Adolygu mynediad a goresgyn rhwystrau, ynghyd â gwybodaeth dda fel y gall pobl asesu beth sy'n addas i'w diddordebau a'u hangenion nhw. Cynnwys pobl o wahanol oedrannau ac amgylchiadau er mwyn adnabod gwelliannau uchaf eu blaenoriaeth.

3. Rhwystrau sefydliadol

Mae'r rhain yn ymwneud ag arferion sefydliadol, a systemau diwylliannol. Er enghraifft, rhaglenni gweithgareddau sy'n cynnig ystod gyfyngedig iawn o gyfleoedd, cost ffioedd

parcio, bwyd caffi ac ati, diffyg cludiant cyhoeddus cyfleus a hygyrch a diffyg cymorth gan wirfoddolwyr a staff.

Ymateb: Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth amrywiaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, rhaglenni gweithgareddau amrywio, gweithio gyda grwpiau cymunedau lleol.

Blaenoriaethau ar gyfer dileu rhwystrau

Wrth gynllunio ar gyfer gwella mynediad ffisegol, a gyda chyllidebau cyfalaf cyfyngedig, mae'n bwysig pennu'r canlynol:

- pa rwystrau y gellir eu hosgoi (e.e. trwy greu llwybr sy'n mynd rhyw ffordd arall)
- pa rwystrau y gellir gwneud rhywbeth i'w lleddfu (e.e. gosod seddi ar lethr)
- pa rwystrau sydd fwyaf arwyddocaol ac sydd felly'n cael blaenoriaeth o ran gweithredu (e.e. giât anhygyrch wrth y fynedfa).

Gall gwybodaeth gywir ar gyfer ymwelwyr hefyd helpu i oresgyn rhwystrau trwy alluogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus cyn ymweld â safle. Er enghraifft, gallai rhywun sy'n feichiog a ddim yn gallu cerdded yn bell fod yn falch o wybod am lwybr troed sydd heb fod yn serth ac sydd â digon o seddi. Gallai rhywun sy'n amheus o fynd i rywle anghyfarwydd ar eu pen eu hunain fod yn falch o glywed am weithgareddau cymunedol y gallent ymuno â nhw.

Wrth flaenoriaethu cael gwared â neu osgoi rhwystrau, mae'n bwysig dal i ganolbwyntio ar brofiad yr ymwelydd. Y nod cyffredinol yw cynnig profiad yr un mor foddhaol i wahanol ymwelwyr. Felly efallai na fydd llwybr sy'n ymddangos, oherwydd ei ddiffyg rhwystrau, i fod yn amlwg fel llwybr mynediad hawdd yn cael y flaenoriaeth o ran y profiadau mae'r mwyafrif o bobl am eu mwynhau. Mae ymgynghori â phobl leol yn allweddol ac mae angen cynnwys defnyddwyr presennol a rhai sydd ddim yn ddefnyddwyr ar hyn o bryd.

Cynllunio ar gyfer gweithredu

Mae'r adran hon yn dilyn camau'r Gadwyn Fynediad er mwyn tynnu sylw at y prif rwystrau i fynediad ac awgrymu sut y gellir cael gwared arnynt. Mae hefyd yn cynnwys dangosyddion o arfer dda y gellir cyfeirio atynt mewn adolygiadau safle, a'u defnyddio i lywio gwaith datblygu newydd.

1. Penderfynu ymweld

Mae'n bwysig bod egwyddorion Mynediad Lleiaf Rhwystrol yn cael eu gweithredu yn ystod pob cam o'r Gadwyn Fynediad. Dylai cynllun gweithredu ystyried pob dolen, o'r penderfyniad i ymweld, y daith a chyrraedd, profiad ar y safle, i'r daith adref.

Penderfynu ymweld yw cam cyntaf y Gadwyn Fynediad ac fel arfer mae hyn yn dibynnu ar gael gwybodaeth. Diffyg gwybodaeth hygyrch oddi ar y safle yw un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol sy'n cyfyngu ar ddefnydd pobl anabl o'r awyr agored gan eu bod yn aml angen cynllunio'n fwy gofalus er mwyn sicrhau ymweliad pleserus. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymwelwyr sydd â diffyg hyder ac sydd angen bod yn sicr o groeso a hygyrchedd unrhyw safle.

Gall yr unigolyn wneud y penderfyniad i ymweld ei hun, neu ar y cyd â chefnogwr, galluogwr neu ofalwr. Dylai'r wybodaeth fod yn gynhwysol er mwyn cymryd yr holl bobl hyn

i ystyriaeth. Gall profiad gwael ffrind neu gefnogwr hefyd dorri'r Gadwyn Fynediad i'r person sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan rwystrau i fynediad.

Dangosyddion arfer dda

Gwybodaeth yn croesawu'r ymwelwyr i gyd	• Gwefannau a thaflenni'n dangos ystod eang o ymwelwyr, straeon a gweithgareddau. • Gwybodaeth wedi'i chynllunio yn ôl egwyddorion dylunio cynhwysol a Chymraeg Clir/Plain English. • Grwpiau lleol wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth newydd. • Gwybodaeth yn cael ei rhannu'n eang â grwpiau a rhwydweithiau cymunedol lleol ac yn gwahodd pobl i fod yn rhan o ddatrys problemau hygyrchedd. • Gwybodaeth yn cael ei gwirio'n rheolaidd er mwy sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru. • Capsiynau ar fideos er mwyn pobl â nam ar eu clyw.
Gwybodaeth yn hygyrch	• Gwefan wedi'i chynllunio yn unol â safonau Menter Hygyrchedd y We a'i phrofi gan bobl â gwahanol anableddau synhwyraidd a deallusol. • Gwybodaeth oddi ar y safle ar gael mewn gwahanol fformatau er mwyn galluogi cynulleidfa ehangach i fanteisio arno. E.e. gwybodaeth brintiedig ar gael mewn print bras, sain a Braille ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. • Symbolau a lluniau'n cefnogi pobl a phobl ag anableddau dysgu a helpu i gyfleu'r negeseuon i ymwelwyr sydd ddim â'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf. • Gwybodaeth oddi ar y safle ar gael mewn ieithoedd sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned a thwristiaeth yn lleol.
Gwybodaeth ar gael am hygyrchedd y safle	• Gall pobl gael gwybodaeth gyffredinol am y safle cyn iddynt ymweld; e.e. oriau agor, cyfleusterau, cludiant cyhoeddus cyfagos, a darpariaeth mannau chwarae. • Gwybodaeth ar gael oddi ar y safle am hygyrchedd cyfleusterau'r safle, llwybrau hygyrch ar y safle, parcio hygyrch, digwyddiadau sydd i ddod, amserau agor cyfleusterau ac opsiynau teithio. • Polisïau'n glir ynglŷn â mynediad am ddim i ofalwyr a chynorthwywyr personol, pobl hŷn, pobl ar incwm isel.
Hawdd cael gwybodaeth	• Lleoliadau cymunedol, grwpiau a rhwydweithiau'n rhannu gwybodaeth gyda chynulleidfaoedd newydd.
Mynediad rhithwir i brofiadau sy'n rhy heriol i'w cyrraedd	• Gall pobl gael profiad rhithwir (e.e. o ogof anghysbell, neu fryngaer serth) trwy fideo, gwe-gamera, sain, delweddau ac ati
Polisi datblygu gwybodaeth gynhwysol	• Polisi gwybodaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth newydd wedi'i dylunio'n unol â safonau uchaf dylunio cynhwysol.

Datblygu gwybodaeth oddi ar y safle

Pa wybodaeth i'w darparu: Bydd darparu gwybodaeth fanwl a gwrthrychol, oddi ar y safle am lwybrau, safleoedd, cyfleusterau, rhwystrau, pwyntiau mynediad ac yn y blaen, yn

caniatáu i ymwelydd posibl benderfynu ymweld ai peidio neu sut i gynllunio'u hymweliad. Gall fod yn demtasiwn aros hyd nes bod y gwelliannau mynediad wedi'u cwblhau cyn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth. Mae'n bwysig nodi, er nad yw'r safle'n gwbl hygyrch, y dylid o bosib gynhyrchu gwybodaeth cyn gynted ag y bo modd bod sy'n tynnu sylw at ba rannau o'r safle sy'n hygyrch ac i ba safon. Gellid ystyried cynhyrchu gwybodaeth mewn fformat y gellir ei ddiweddaru'n hawdd pan fydd gwelliannau mynediad wedi'u gwneud, megis tudalen ar y we neu ddogfen gyfrifiadurol.

Mae gwybodaeth am yr uchafbwyntiau sydd gan safle i'w cynnig, a sut y gall gwahanol bobl eu mwynhau yn bwysig i bawb, ond yn enwedig i bobl sydd ddim yn hyderus o ran y croeso, neu a fydd safle'n addas ar gyfer eu diddordebau.

Peidiwch â darparu gwybodaeth sy'n gyfyngedig i amser penodol os na allwch fod yn sicr y byddwch yn ei diweddaru

Fformatau: Dylai'r wybodaeth gael ei darparu mewn fformatau sy'n hygyrch, megis print bras a sain. Mae darparu gwybodaeth ar y rhyngrwyd mewn delweddau clir a ffeiliau testun plaen y gellir eu lawrlwytho yn galluogi defnyddwyr i addasu'r cyflwyniad ar gyfer eu gofynion penodol eu hunain. Gall hyn leihau'r angen am storio a dosbarthu gymaint o ganllawiau Print Bras neu Braille, er na fydd yn eu disodli yn gyfan gwbl. Dylid dylunio gwefannau yn unol â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) Menter Hygyrchedd y We (WAI).

Ei brofi'n gyntaf: Mae gwahanol ymwelwyr angen gwahanol fathau o wybodaeth er mwyn mwynhau eu hymweliad a dylid datblygu unrhyw wybodaeth, mewn unrhyw gyfrwng, mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r gynulleidfa arfaethedig. Mae'n ddefnyddiol cynnal profion defnyddwyr cyn i'r deunydd gael ei gwblhau. Mae ymchwil gan Gefn Gwlad i Bawb BT hefyd yn dangos bod pobl anabl yn fwy tebygol o ymddiried mewn gwybodaeth am fynediad pan fydd wedi cael ei archwilio gan bobl anabl eraill. Felly dylid gwahodd grŵp cynrychioliadol lleol o bobl anabl i wirio'r wybodaeth cyn ei hargraffu.

Ei rhannu'n eang: Mae angen i ymwelwyr ganfod gwybodaeth yn hawdd. Er enghraifft, os yw taflenni'n cael eu rhannu mewn lleoliadau sydd ddim yn hygyrch yna bydd yn lleihau nifer y bobl sy'n gallu eu defnyddio. Yn yr un modd, fydd darparu gwybodaeth yn y mannau arferol - Canolfannau Croeso a lleoliadau twristiaeth eraill, er enghraifft - o ddim help o ran cyrraedd pobl sy'n llai ymwybodol o'r hyn sydd ar gael. Gellir datrys hyn drwy ddosbarthu mewn lleoliadau cymunedol lleol, swyddfeydd post, eglwysi, tafarndai ac ati

Sicrhau ei bod yn gyfredol: Mae hyder yn bwysig i lawer o bobl sy'n ymweld â chefn gwlad ehangach, ac o'r herwydd, rhaid i wybodaeth fod mor fanwl ac mor gyfredol â phosibl fel y gellir ymddiried ynddo. Dylai'r wybodaeth gynnwys materion posibl yn ymwneud â newidiadau tymhorol neu dywydd.

Caniatáu i bobl wneud eu penderfyniadau eu hunain: Dylid ceisio osgoi gwybodaeth sydd ddim yn caniatáu i'r ymwelydd wneud y penderfyniad. Er enghraifft, nid yw arwydd sy'n dweud 'llwybr ddim yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn' yn ystyried yr ystod o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac y gallai rhai ohonynt fwynhau'r her. Bydd gwybodaeth sy'n rhoi manylion hanfodol (e.e. graddiant a phellter) yn caniatáu i bobl benderfynu drostynt eu hunain.

2. Teithio a chyrraedd

Ffactor allweddol wrth ddewis ymweld â chyrchfan neu beidio yw pa mor hawdd yw hi i gyrraedd yno ac yn ôl adref eto. Gall diffyg cludiant cyhoeddus hygyrch fod yn rhwystr mawr i bobl sydd heb gar. Yn yr un modd, gall diffyg lle parcio hygyrch atal pobl â symudedd cyfyngedig, defnyddwyr cadair olwyn a phobl hŷn ymweld â'r safle. Fel arfer, y llwybrau, safleoedd a chyfleusterau mwyaf hygyrch yw'r rhai sy'n cynnig amrywiaeth o wahanol opsiynau ar gyfer teithio i'r safle.

Dangosyddion arfer dda

Mae'n bosibl cyrraedd y llwybr neu'r safle ar gludiant cyhoeddus	• Archwilio'r posibilrwydd o gydweithio gyda darparwyr cludiant lleol er mwyn gwella gwasanaethau, gan gynnwys cynlluniau cludiant cymunedol. • Gwybodaeth am opsiynau trafnidiaeth ar gael ar y safle (yn ogystal ag yn y wybodaeth oddi ar y safle). • Gwasanaethau bws a thacsi hygyrch i gadeiriau olwyn ar gael. • Pris gostyngol a gwahanol lwybrau wedi'u cytuno gyda darparwyr cludiant lleol.
Cefnogi cerdded a beicio	• Llwybrau da ar gyfer cerdded neu feicio i'r safle. • Cyfleoedd beicio hygyrch ar gael. • Cawodydd, loceri a man storio beiciau hygyrch ar y safle.
Mannau parcio a gollwng hygyrch wedi'u nodi'n glir	• Parcio hygyrch yn cael ei arwyddo'n glir o'r ffyrdd o gwmpas ac yn agos at fynedfeydd a mannau allweddol (e.e. caffi). • O leiaf 5% o leoedd wedi'u cynllunio a'u dynodi ar gyfer ymwelwyr anabl. • Mannau gwefru trydan yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. • Mannau gollwng cludiant cyhoeddus a phreifat yn hygyrch, ger y fynedfa, ac ar yr un ochr o'r ffordd er mwyn osgoi gorfod croesi drwy'r traffig.
Mynedfeydd yn groesawgar ac wedi'u harwyddo'n glir	• Mannau cyrraedd â gwybodaeth dda i ymwelwyr, e.e. map a manylion ffeindio'r ffordd hygyrch. • Cyfleusterau fel caffis, canolfannau ymwelwyr a thoiledau yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddynt. • Ymwelwyr i gyd yn mynd i mewn drwy'r un mynedfeydd (h.y. dim mynedfa ar wahân i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn).
Dewis o brofiadau i ymwelwyr yn gwbl eglur	• Gwybodaeth i ymwelwyr yn dangos pa brofiadau sydd ar gael er mwyn iddynt allu dewis beth sydd orau iddynt hwy.
Offer symudol ar gael	• Offer megis cadeiriau olwyn, seddi symudol, offer trwsio pynjars a deunyddiau sain ar gael i'w benthyg.
Profiadau ymwelwyr sy'n anghysbell a heriol i'w gweld yn y ganolfan ymwelwyr/dysgu neu gaffi	• Gall pobl gysylltu â phrofiadau mwy anghysbell a heriol, e.e. fideo, deunydd sain, gwe-gamera o nyth aderyn.

	• Deunyddiau ar gael i'w harchwilio drwy eu cyffwrdd - e.e. bwrdd cyffwrdd gyda gwrthrychau a deunyddiau diddorol.
Staff a gwirfoddolwyr yn darparu cefnogaeth dda	• Staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o amrywiaeth. • Gwirfoddolwyr Mynediad ar gael i gefnogi.

Gwella trafnidiaeth a chyrraedd safle

Gwella cludiant cyhoeddus: Mae diffyg cludiant cyhoeddus hygyrch, dibynadwy a fforddiadwy yn rhwystr sylweddol i lawer o bobl anabl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Pan fo cludiant cyhoeddus yn bodoli, yn aml nid yw'r amserlenni'n hygyrch. Er enghraifft, mae ffont bach yn anodd ei ddarllen i bobl â nam ar eu golwg, ac mae cynlluniau cymhleth yn anodd i bobl â nam amlsynnwyr.

Mae'r awdurdod lleol neu gwmni preifat yn debygol o fod yn gyfrifol am gludiant cyhoeddus, ond efallai y bydd yn bosibl ymchwilio i'r posibilrwydd o drafod materion megis amserlenni, llwybrau a hyd yn oed y math o gludiant sydd ar gael. Rhoddai DDA 1995 ddyletswyddau ar ddarparwyr cludiant cyhoeddus ac mae rhai eisoes wedi cyflwyno bysiau a thacsis hygyrch.

Mae hefyd yn bwysig ymgynghori â phobl leol i weld pa fathau o welliannau mynediad fyddai fwyaf buddiol. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wedi'u cydlynu â Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol er mwyn helpu i ddatrys rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Efallai nad yw pobl sy'n byw ar incwm isel yn gallu fforddio rhedeg car, neu dalu am gludiant cyhoeddus. Mae'n bwysig archwilio'r posibiliadau ar gyfer cludiant cymunedol, ar y cyd â sefydliad gwirfoddoli lleol neu gysylltu â gweithgareddau cymunedol efallai. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda sefydliadau cymunedol lleol er mwyn trefnu cynlluniau cludiant cymunedol pwrpasol gyda dyddiadau penodol ar gyfer sgyrsiau/teithiau tywys, gan ddod â chymunedau at ei gilydd a chreu rhwydwaith cymorth.

Gwella mynediad i geir: Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar geir er mwyn gallu ymweld â chefn gwlad, ac ni fydd rhai'n gallu mentro ymhell o'u ceir wedi iddynt gyrraedd yno. Er enghraifft, mae pobl sydd â nam amlsynnwyr yn aml yn dibynnu ar gymorth gan rywun i'w gyrru, neu ar dacsis. Mae ymweliadau o'r fath yn dibynnu ar leoedd parcio a gollwng hygyrch sy'n ddigon agos at fannau atyniadol. Gall parcio fod yn fater sensitif, yn enwedig ar gyfer llwybrau a safleoedd a all gael eu difrodi gan ormod o ymwelwyr. Efallai y bydd pobl yn penderfynu beth i'w wneud ar y safle wedi iddynt gyrraedd, felly mae mannau cyrraedd yn lleoedd allweddol er mwyn ysbrydoli pobl i archwilio a mentro.

Annog cerdded a beicio: Yng Nghymru mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn rhoi mwyfwy o bwyslais ar annog a chefnogi pobl i gerdded a beicio, gan gysylltu hyn â'r awydd i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae llwybrau hygyrch a nodweddion cysylltiedig (e.e. seddi, beiciau hygyrch, gwybodaeth ddibynadwy) yn bwysig os yw'r cyfleoedd hyn i fod ar gael i gymaint o bobl â phosibl. Gallant fod yn ganolbwynt da ar gyfer gweithgareddau cymunedol, e.e. sefydlu grwpiau cerdded a beicio.

Astudiaeth achos: cynllun cludiant cymunedol

Mae Trafnidiaeth i Bawb yn gynllun cludiant cymunedol yn Llanelli sy'n darparu ffordd fforddiadwy i grwpiau lleol fynd allan. Mae'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr ac mae ganddynt nifer o fysiau mini cymunedol. Mae Grŵp Dementia Porth Tywyn yn enghraifft o grŵp sy'n defnyddio'r cludiant:

> "Mae pobl yn mynd allan ar deithiau na fyddai wedi mynd allan o'r blaen. Yn anffodus, fydden ni ddim yn gallu fforddio mynd oni bai am y bysiau cymunedol". Dorothy McDonald, yn esbonio'r manteision ar gyfer Grŵp Dementia Porth Tywyn sy'n defnyddio'r cludiant yn rheolaidd.

http://www.dolenteifi.org.uk/CY/transport-for-all/

3. Profiad ar y safle: cyfleusterau

I rai pobl mae cyfleusterau'n ystyriaeth hanfodol wrth gynllunio diwrnod allan. Wrth gynllunio cyfleusterau newydd neu addasu cyfleusterau megis toiledau, caffis neu fannau gwerthu tocynnau, dylid ystyried gwelliannau mynediad sydd wedi'u cwblhau eisoes neu sydd yn yr arfaeth hefyd. Dylid gosod y cyfleusterau yn y man lle byddant o'r budd mwyaf ac o bosibl yn cynyddu'r defnydd o lwybrau hygyrch.

Yn aml, mae toiledau hygyrch a lluniaeth ar gael mewn tafarndai, caffis neu ganol trefi a'r dasg yn syml yw cynnwys y wybodaeth hon yn y cyhoeddusrwydd a'r wybodaeth am y safle neu'r llwybr. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli bod llawer o doiledau cyhoeddus yn cau ac mewn rhai ardaloedd bydd hyn yn cynyddu pwysigrwydd darparu cyfleusterau o'r fath ar y safle.

Gall darparu gwasanaethau a chyfleusterau, megis lluniaeth, gan gontractwr neu asiantaeth allanol fod yn fwy o her, ond mae'n rhaid i fentrau o'r fath fod yn ymwybodol o'r safonau mynediad sydd disgwyl iddynt eu boddhau. Mae hyn yn berthnasol i ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid hefyd.

Dangosyddion arfer dda

Toiledau ar gyfer yr holl ymwelwyr	• Toiledau hygyrch ger mynedfeydd, meysydd parcio a mannau cychwyn. • Toiledau'n amlwg yn y wybodaeth mynediad, gan gynnwys manylion hygyrchedd.
Cyfleusterau fel canolfannau ymwelwyr, caffis, mannau gwerthu tocynnau, cuddfannau adar yn hygyrch	• Oriau agor yn gyfleus i wahanol bobl. • Hygyrchedd yn cael ei hyrwyddo yn y wybodaeth i ymwelwyr. • Staff wedi'u hyfforddi i fod yn ymwybodol o amrywiaeth.
Darpariaeth dda o ran seddi a chysgod	• Digon o gyfle i ymwelwyr orffwys ar hyd y llwybrau. • Seddi'n cael eu blaenoriaethu ar lechweddau ac arwynebau mwy heriol.

	• Cysgod ar gael, yn enwedig mewn mannau lle mae ymwelwyr yn debygol o fod yn sefyllian (e.e. mannau codi).

Gwella cyfleusterau

Toiledau: Mae angen i'r dewis o gyfleusterau mwyaf priodol fod yn berthnasol i'r safle penodol, y proffil ymwelwyr a'r hyn sy'n bosibl o fewn cyllidebau a gofod ffisegol.

Dylid anelu i ddarparu toiled hygyrch i gadeiriau olwyn a chyfleusterau newid babanod ac, os yw lle yn caniatáu, eu darparu ar wahân. Yn gynyddol, mae lleoliadau'n ehangu cwmpas hygyrchedd i gynnwys pobl ag anableddau cudd (megis cyflyrau coluddyn a syndrom pledren orweithgar). Bydd pobl sy'n ystyried eu hunain yn drawsrywiol yn croesawu blaenoriaethu cyfleusterau sy'n niwtral o ran rhyw, a bydd cyfleusterau o'r fath hefyd yn helpu i osgoi ciwiau y tu allan i'r toiledau merched ar adegau prysur.

Ym mhob toiled, dylid ceisio sicrhau bod cyferbyniad lliw da rhwng ffitiadau a'u cefndir er budd pobl â nam ar eu golwg. Bydd pobl sydd â chryd cymalau yn eu dwylo a rhai sy'n cael trafferth deall technegau newydd, megis pobl sy'n byw gyda dementia, yn gwerthfawrogi cloeon, tapiau a pheiriannau sychu dwylo hawdd eu defnyddio.

Rhaid cofio bod y mathau newydd o gerbydau symudedd personol angen mwy o le i droi ac mae'n syniad da i ystyried hyn wrth wneud unrhyw waith dylunio newydd.

Caffis, cuddfannau adar, ystafelloedd dosbarth ac ati: Dylid cynllunio adeiladau, lle mae rheoliadau cynllunio ac adeiladu yn berthnasol, i gydymffurfio â safonau Rhan M. Gall y safonau hyn helpu wrth gynllunio strwythurau eraill hefyd, fel cuddfannau adar, lle mae mynedfeydd, lled drysau, gofod troi ac uchder gwylio i gyd yn fanylion pwysig sydd angen sylw.

Seddi: Mae seddi'n hanfodol ar gyfer ymwelwyr sydd â stamina cyfyngedig ac sydd angen gorffwys yn rheolaidd. Gall seddi helpu i leihau effaith llethrau a phellter. Maent hefyd yn galluogi pobl i fwynhau'r safle yn eu hamser eu hunain, i loetran ac i gymdeithasu. Mae seddi gyda breichiau a chefnau yn rhoi cymorth pwysig i ymwelwyr hŷn, pobl gyda chryfder cyfyngedig yn rhan uchaf y corff, ac mae seddi o wahanol feintiau'n addas ar gyfer amrywiaeth o ymwelwyr.

Astudiaeth achos: Toiledau niwtral o ran rhyw - Dwi jyst angen pi-pi!

Bu staff trawsrywiol a'u cynghreiriaid yn Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn trafod y ffaith bod cael eu gorfodi i ddefnyddio naill ai doiledau dynion neu ferched yn peri cryn ofid iddynt. Roedd hynny'n bennaf am nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus, neu'n ddigon hyderus i ddefnyddio cyfleusterau deuaidd o ran rhyw.

Yn ffodus, lle mae'r staff hyn yn gweithio, mae cymysgedd o gyfleusterau gan gynnwys toiledau aml-ddefnyddiwr dynion a merched a thoiledau un defnyddiwr sydd wedi'u lleoli mewn parau a'u harwyddo'n unigol ar gyfer dynion neu ferched. Yr unig eithriad i hyn yw'r toiledau hygyrch sydd ddim wedi'u nodi ar gyfer unrhyw 'ryw' yn benodol.

Yr ateb o ran darparu cyfleusterau priodol ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr oedd i drosi'r toiledau un defnyddiwr trwy osod arwyddion gydag eiconau niwtral o ran rhyw

(benyw/heb fod yn ddeuaidd/gwryw) a darparu unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ychwanegol yn yr hen doiledau "dynion".

Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, roedd newidiadau tebyg yn digwydd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda staff rheoli cyfleusterau lleol a oedd â diddordeb mawr mewn symud i'r cyfeiriad hwn, ond fel cyfnod prawf er mwyn i'r sefydliad gael profiad o faterion cyflwyno darpariaeth niwtral o ran rhyw cyn symud tuag at ei gyflwyno ym mhob un o'r toiledau un defnyddiwr ledled ystâd CNC.

Mae manteision gwneud y newid cost-isel hwn yn cynnwys:

- Bod posibl i'r cynnig gael ei weithredu'n eithaf cyflym ac ar gost isel
- Nad yw effeithiau'r newidiadau, yn arbennig ar ddefnyddwyr ag anghenion mynediad, yn effeithiau negyddol
- Bod rhywfaint o fantais i'r staff i gyd o ran bod mwy o doiledau ar gael i bawb
- Manteision penodol i staff trawsrywiol ac ymwelwyr nad ydynt eto'n trawsnewid yn ffurfiol neu'n anneuaidd
- Cyfle i ddefnyddio labeli er mwyn cydnabod pobl drawsrywiol/anneuaidd yn benodol.

4. Profiad ar y safle: digwyddiadau a gweithgareddau

Mae'r adran hon yn ymwneud â digwyddiadau grŵp wedi'u trefnu, e.e. gweithgareddau ysgol goedwig, cyngherddau a sgyrsiau yn yr awyr agored, gwyliau lleol a 'parkruns'. Mae'n hawdd esgeuluso materion hygyrchedd, yn enwedig pan fo digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu trefnu gan drydydd partïon.

Mae cynllunio digwyddiadau hygyrch yn dibynnu ar hygyrchedd cyfleusterau presennol, megis toiledau a pharcio, yn ogystal â chyfleusterau penodol ar gyfer digwyddiadau, megis pebyll, arwyddo dros dro a deunydd marchnata. Bydd y dewis o leoliad yn dylanwadu ar ba mor hawdd neu anodd y bydd hi i wahanol ymwelwyr ymuno yn y digwyddiad - e.e. bydd lleoli digwyddiad yn bell o'r maes parcio yn ei gwneud yn anodd i unrhyw un sy'n cael trafferth symud, fel hefyd y bydd rheilen ar draws mynedfa i babell.

Bydd adolygu rhaglenni digwyddiadau a gweithgareddau'n rheolaidd a chreu polisi ar gyfer materion sylfaenol (e.e. seddi symudol, arwyddion dros dro, toiledau) yn dynodi agweddau sydd angen eu gwella - e.e. ni fyddai'n bosibl i unrhyw un gyda phroblem symudedd ddefnyddio llwyfan sydd â mynediad i fyny grisiau'n unig. Dylai fod yn ofynnol i drefnwyr trydydd parti ddangos eu bod yn ystyriol o hygyrchedd a chynhwysiant yn eu cais i ddefnyddio'r safle.

Dangosyddion arfer dda

Amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau	• Cefnogi gweithgareddau cymunedol, e.e. y grŵp cerdded LGBT lleol bellach yn defnyddio'r safle fel lleoliad. • Cynlluniau gweithgareddau yn ystyried diddordebau amrywiol.
Lleoliadau digwyddiadau'n darparu ar gyfer yr ymwelwyr i gyd	• Toiledau hygyrch gerllaw, meysydd parcio neu fannau gollwng a digon o seddi.

	• Mynediad heb risiau i leoliadau digwyddiadau/gweithgareddau, gan gynnwys mannau perfformio.
Ystod amrywiol o fwyd a diod ar gael	• Y bwyd sydd ar gael yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o anoddefiadau bwyd cyffredin (e.e. glwten), yn ogystal â dewisiadau deietegol fel dim cig. • Gallu darparu ar gyfer deiet penodol ac anoddefiadau drwy drefniant.
leithoedd eraill ar gael	• Gallu trefnu cyfieithwyr. Iaith Arwyddion yn cael ei drefnu ar gyfer digwyddiadau mawr.

Gwella digwyddiadau a gweithgareddau

Amrywiaeth o ddiddordebau: Mae gwneud y rhaglen ddigwyddiadau yn fwy cynhwysol yn golygu ehangu'r ystod o weithgareddau a diddordebau sydd ar gael. Os nad yw safle'n cynnig unrhyw gyfleoedd heblaw gweithgareddau awyr gorfforol, fel beicio, yna bydd yn annhebygol o apelio'n eang at bobl sydd â diddordeb mewn gweithgareddau mwy cymdeithasol. Ffordd dda ymlaen yw gweithio gyda chymunedau lleol er mwyn darganfod sut yr hoffent ymgysylltu â'ch safle a chydweithio â grwpiau a sefydliadau er mwyn iddynt ddefnyddio eich safle fel canolfan ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ganddynt eisoes.

Darparu dewisiadau: Sicrhau ei bod yn bosibl gwneud gweithgareddau heb fod angen goresgyn rhwystrau posibl i fynediad. Er enghraifft, sicrhau y gellir gwneud helfa sborion o fewn pellter rhesymol i gyfleusterau gan gofio y gallai neiniau a theidiau fod yn ymweld gyda'u hwyrion.

Apelio at y synhwyrau: Wrth gynllunio gweithgareddau fel llwybrau teuluol dylid ceisio cynnwys cyfleoedd synhwyraidd fel gwneud rhwbiadau a pharu lliwiau yn hytrach na dibynnu ar gwestiynau ac atebion yn seiliedig ar destun ysgrifenedig yn unig.

Sesiynau hamddenol: Mae'r rhain yn sesiynau tawelach ar gyfer pobl sy'n teimlo digwyddiadau a gweithgareddau arferol yn llethol, e.e. pobl ag Awtistiaeth. Ar gyfer digwyddiadau o'r fath dylid cael llai o fynychwyr, cynnal y sesiynau ar adegau tawelach, llai prysur o'r dydd, osgoi newidiadau cryf a sydyn o ran sain, goleuo a symbyliadau synhwyraidd eraill a darparu gofod ar gyfer 'amser allan' .

Gweithgareddau chwaraeon a hamdden: Mae mwy a mwy o enghreifftiau o weithgareddau awyr agored lle gall pobl â phroblemau symudedd ymuno â'r gweithgaredd. Er enghraifft, beiciau a chychod wedi'u haddasu sy'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae beicio, rhedeg a gweithgareddau corfforol eraill gyda chydymaith yn caniatáu mynediad i ymwelwyr â nam ar eu golwg.

Astudiaeth achos: grŵp cerdded

Sefydlwyd cyfres o grwpiau cerdded lleol gan y Sensory Trust er mwyn annog pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i fynd allan i'r awyr agored, gwneud ffrindiau newydd a threulio amser yng nghefn gwlad. Mae'r teithiau cerdded hamddenol hyn yn hunangynhaliol erbyn hyn ac yn cael eu rhedeg gan y grwpiau eu hunain. Mae hyn yn rhywbeth y gall lleoliad ei hwyluso'n rhwydd.

Sensory Trust

5. Profiad ar y safle: symud o gwmpas y safle

Mae pa mor hawdd yw hi i ymwelwyr symud o gwmpas yn dibynnu'n bennaf ar natur ffisegol y safle neu'r llwybr. Gall graddiant, llwybrau cul, pellter ac arwynebau anwastad i gyd fod yn rhwystr i ymwelwyr, yn enwedig pobl â symudedd neu stamina cyfyngedig, a theuluoedd gyda phlant ifanc hefyd.

Bydd gwelliannau i ffabrig safle neu lwybr yn un o'r prif ffyrdd o wella mynediad i'r nifer mwyaf o bobl. Felly, mae hyn yn cael mwy o sylw yn y canllaw hwn, ac mae'r tudalennau canlynol yn rhoi canllawiau ar gynllunio, adolygu a gweithredu gwelliannau ffisegol i safleoedd.

Bydd adnabod a hyrwyddo llwybrau deniadol, gyda'r mynediad hawsaf, o fudd i nifer fawr o ymwelwyr, er enghraifft teuluoedd â phlant ifanc a chadeiriau gwthio, pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu corfforol, ymwelwyr hŷn a phobl sydd ddim wedi arfer cerdded yng nghefn gwlad. Mae hyn yn osgoi i 'fynediad haws' gael ei weld fel rhywbeth sy'n ymwneud ag ymwelwyr anabl yn benodol, ond yn hytrach yn ymwneud â phobl yn gyffredinol.

Sensory Trust



Sensory Trust

Dangosyddion arfer dda

Toiledau yn darparu ar gyfer yr ymwelwyr i gyd	• Toiledau hygyrch ger mynedfeydd, meysydd parcio a mannau cychwyn. • Toiledau'n amlwg yn y wybodaeth mynediad, gan gynnwys manylion hygyrchedd.
Hygyrchedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ymateb cadarnhaol i faterion a godir	• Ymwelwyr anabl yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau mynediad rheolaidd. • Proses glir ar gyfer adrodd ac ymateb i faterion hygyrchedd.
Cynnal a chadw rheolaidd ac o ansawdd uchel	• Arwynebau'n cael eu trwsio, llystyfiant sy'n hongian drosodd yn cael ei dorri a rhwystrau'n cael eu symud yn rheolaidd. • Tîm cynnal a chadw yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o amrywiaeth.
Dewis o lwybrau o ran pellter, her a phrofiad ymwelwyr	• Llwybrau dychwelyd byr yn cael eu cynnwys fel dewis haws i ymwelwyr ag anawsterau symudedd neu stamina cyfyngedig.
Hawdd ffeindio'r ffordd	• Gwybodaeth dda yn y pwyntiau penderfynu allweddol fel bod pobl yn gallu ffeindio'u ffordd o gwmpas.
Seddi	• Seddi rheolaidd er mwyn gorffwys, yn enwedig er mwyn lleihau effaith graddiant a phellter.

Gwella llwybrau

Wrth adolygu llwybrau, y nod yw pennu sut i ddarparu mynediad i gymaint o'r rhwydwaith â phosibl ar gyfer gymaint o bobl ag y bo modd, ac i flaenoriaethu'r camau gweithredu. Y cam cyntaf yw canfod pa leoliad neu barth yw'r mwyaf priodol ar gyfer llwybr sydd i'w archwilio.

Yn unol â dull Mynediad Lleiaf Rhwystrol, mae angen penderfynu pa set o safonau sydd fwyaf priodol ar gyfer y llwybr, gan gofio bob amser pwy yw'r defnyddwyr ar hyn o bryd, y defnyddwyr posibl neu a allai fod, a beth sydd ei angen arnynt.

Astudiaeth achos: ymgysylltu menywod duon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) o Gaerdydd mewn gweithgaredd corfforol

Roedd prosiect Newid Ffyrdd o Fyw yng Nghaerdydd a'r Fro yn rhan o brosiect ymchwil gweithredu Mentro Allan. Drwy ddarparu gweithgareddau fel beicio, ioga, cerdded a dawnsio roedd y prosiect yn galluogi menywod BAME i fod yn fwy egnïol yn yr awyr agored.

Cyn ymuno â'r prosiect roedd llawer o'r merched yn byw bywydau eithaf llonydd. Roeddent yn dweud nad oeddent yn gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored am eu bod yn teimlo'n bryderus ynglŷn â mynd allan ar eu pennau eu hunain mewn mannau tawel, nad oeddent yn siŵr ble gallent fynd i gerdded a'u bod yn poeni am gamdriniaeth hiliol. Nid oedd gan lawer ohonynt ddillad addas ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Er mwyn datrys y rhwystrau hyn, darparodd y prosiect ddillad dal dŵr ac esgidiau ymarfer, ac ychydig o anogaeth i'r merched i roi cynnig ar weithgareddau newydd fel beicio.

"Mae eu gwybodaeth am dirwedd a hanes ardal Caerdydd wedi tyfu, ac mae llawer o'r cyfranogwyr, nawr eu bod yn fwy gwybodus am fynediad, llwybrau a chyfleusterau, wedi dychwelyd i leoliadau'r prosiect gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd".

Astudiaeth achos Mentro Allan www.mentroallan.co.uk <http://www.mentroallan.co.uk

Archwilio llwybrau

Gall llwybr fod yn llwybr sengl neu rwydwaith o lwybrau, llwybrau ceffyl a ffyrdd. At ddiben pennu parthau rheoli, bydd angen llwybr i gael man cychwyn diffiniedig, megis maes parcio neu bentref. Bydd hefyd yn cael pwynt diwedd, er enghraifft lle picnic neu olygfan. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn arwain at lwybr cyflawn a gellir ei ddefnyddio.

Y camau

1. Aseinio llwybrau i barthau	Defnyddio'r system sgorio yn Atodiad 2
2. Blaenoriaethu archwiliadau	Llwybrau Parth A sy'n cael y flaenoriaeth uchaf. Blaenoriaethu llwybrau sydd â dosbarthiad daearyddol da
3. Archwilio llwybrau yn erbyn meini prawf y parthau	Defnyddio meini prawf parthau rheoli
4. Casglu data – ble gellid gwella mynediad o fewn y gyllideb bresennol	Llwybrau Parth A sy'n cael y flaenoriaeth uchaf
5. Blaenoriaethu gwelliannau	Blaenoriaethu llwybrau poblogaidd, gwaith sy'n cwblhau cylchdeithiau neu lwybrau sy'n rhoi mynediad i uchafbwyntiau
6. Gwneud y gwaith	Defnyddio safonau priodol ar gyfer y parthau
7. Rhaglen cynnal a chadw	Defnyddio LRA er mwyn cwrdd â neu wella ar safonau'r parthau
8. Gwerthuso'r gwelliannau	Defnyddio holiaduron a sesiynau ymgynghori er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith

1. Aseinio llwybrau i leoliadau neu barthau

Bydd mapiau'n dangos rhwydweithiau o lwybrau troed, llwybrau ceffyl a hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Y cam cyntaf yw nodi llwybrau o fewn y rhwydweithiau hyn a'u haseinio i'r lleoliad neu barth priodol uchaf posibl. Gwelir y parthau rheoli yn Atodiad 1.

2. Blaenoriaethu llwybrau ar gyfer eu harchwilio

Fel arfer mae llwybrau gyda'r nodweddion canlynol yn cael blaenoriaeth uchel ar gyfer eu harchwilio ac yn cael eu harchwilio yn erbyn y safonau uchaf:

- Llwybrau sy'n arwain i gyrchfannau poblogaidd a llwybrau lleol a ddefnyddir yn aml, er enghraifft o bentref i'r eglwys neu siop
- Llwybrau y mae pobl leol eisoes yn eu defnyddio neu y byddent yn hoffi'u defnyddio
- Llwybrau mewn safleoedd fel parciau gwledig, lle mae llwybrau sy'n hygyrch i bawb yn ddymunol a lle mae, neu lle fydd yn y dyfodol, toiledau hygyrch, lluniaeth a chyfleusterau parcio ffurfiol ar gael
- Llwybrau mewn safleoedd hamdden pwysig yn lleol, megis coetiroedd cymunedol
- Llwybrau y gellir eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus hygyrch, neu ble mae posibilrwydd o ddatblygu cludiant cyhoeddus hygyrch
- Llwybrau sy'n rhoi mynediad i safleoedd hanesyddol dynodedig, cynefinoedd, golygfeydd ardderchog neu nodweddion eraill o ddiddordeb
- Llwybrau sy'n arwain at, neu sy'n rhan o lwybr hygyrch hirach

Fel arfer mae blaenoriaeth is yn cael ei aseinio i lwybrau gyda'r nodweddion canlynol ac maent yn cael eu harchwilio yn unol â'r safonau hynny:

- Llwybrau mewn safleoedd lle nad oes cyfleusterau hygyrch ar hyn o bryd, neu lle nad yw'n briodol nac hyfyw'n economaidd i ddarparu cyfleusterau o'r fath
- Llwybrau anghysbell lle mai ychydig iawn o bobl sy'n debygol o'u defnyddio (gallai llwybrau mewn ardaloedd o werth treftadaeth sylweddol fod yn eithriad i'r rheol hon)
- Llwybrau lle mae cludiant cyhoeddus neu fannau parcio hygyrch yn annhebygol o gael eu darparu
- Llwybrau mewn mannau ble nad yw cyfyngiadau naturiol y safle'n caniatáu llwybrau cwbl hygyrch
- Llwybrau mewn lleoliadau o werth tirweddol uchel, ble na ellir cuddio effaith weledol llwybr cwbl hygyrch neu y byddai effaith o'r fath yn annymunol
- Llwybrau lle na ellir cyfiawnhau'r gost o wella a chynnal y safonau mynediad uchaf
- Llwybrau yng nghefn gwlad agored/tir gwyllt.

Ni ddylai blaenoriaeth is gael ei weld fel rheswm i wneud gwaith adfer o safon isel. Fel y pwysleidir yn BS5709, dylai unrhyw waith newydd anelu at y safonau uchaf ac mae hyn yn hanfodol fel ffordd o gynyddu hygyrchedd pob llwybr dros amser.

3. Archwilio llwybrau

Pan fydd y llwybrau wedi'u blaenoriaethu dylid eu harchwilio, gan ddefnyddio'r dull Mynediad Lleiaf Rhwystrol, yn erbyn y safonau uchaf posibl sy'n briodol ar gyfer y math hwnnw o lwybr. Mae archwilio'n hanfodol gan fod y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio mewn dwy ffordd: i bennu'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn i'r llwybrau gyrraedd y safonau angenrheidiol; ac er mwyn darparu gwybodaeth fanwl i ddefnyddwyr.

4. Blaenoriaethu gwelliannau

Nodi'r llwybrau hynny sydd â'r mwyaf o alw amdanynt neu sydd fwyaf poblogaidd. Dylai'r rhain gael y flaenoriaeth o ran gweithredu. Nesaf, dylid ystyried y llwybrau eraill a phennu

rhaglen o welliannau'n seiliedig ar y gyllideb a faint o waith fyddai'i angen er mwyn i bob llwybr gyrraedd y safon.

Yna dylid ystyried y llwybrau sydd wedi cael eu neilltuo i leoliadau neu barthau eraill er mwyn gweld a ellir dod â nhw i fyny i'r safonau uchaf. Er enghraifft, gallai llwybr fod yn bwysig iawn i bobl leol a chael cryn dipyn o ddefnydd, ond, oherwydd y diffyg parcio a'i dopograffeg, bod ei sgôr wedi'i osod ym Mharth B. Dylid tynnu sylw ato fel llwybr y dylid ei flaenoriaethu o bosibl ac ailedrych i weld faint o waith fyddai angen ei wneud er mwyn ei wella i safonau Parth A. Dylid rheoli gweddill y llwybrau Parth B ac C drwy ddefnyddio LRA (gweler cam 6).

5. Gwneud y gwaith
Defnyddio'r safonau priodol ar gyfer pob llwybr.

6. Rhaglen gynnal a chadw
Dylid defnyddio egwyddor LRA er mwyn cyrraedd neu wella ar safonau'r lleoliad neu'r parth ar gyfer pob llwybr sydd angen ei gynnal a chadw. O'i ddefnyddio fel hyn, mae'r LRA yn offeryn i wella ansawdd llwybrau'n raddol dros amser. Mae llwybrau sydd wedi'u gwella yn gallu cynyddu o ran poblogrwydd a bydd hyn i'w weld yng ngwerthusiadau'r dyfodol.

7. Gwerthuso'r gwelliannau
Dylid defnyddio holiaduron a sesiynau ymgynghori er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol oedd y gwaith, a hynny, yn ddelfrydol, ar ôl cynnwys amrywiaeth o bobl wrth gynllunio a rheoli'r gwaith. Defnyddir y canlyniadau er mwyn dylanwadu a gwella'r rhaglen wella barhaus.

8. Adolygu pob 3 - 5 mlynedd
Rhaid adolygu'r broses o'r dechrau bob 3 i 5 mlynedd. Dylid ystyried newidiadau fel patrymau defnydd, demograffeg, newidiadau ariannol, cyllid ar gyfer mathau arbennig o waith a newidiadau yn y ffordd mae rhai llwybrau'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl yr ymgynghorwyd â nhw.

6. Profiad ar y safle: gwybodaeth a dehongliad
Bydd gwybodaeth wedi ei gynllunio'n dda yn helpu ymwelwyr i ffeindio'u ffordd o gwmpas, i wneud dewisiadau gwybodus ac ymgysylltu â'r safle. Mae gwybodaeth hygyrch yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r holl ymwelwyr.

Bydd ymwelwyr eisiau gallu cael gwybodaeth drwy gydol eu hymweliad - o ble i fynd a beth i'w weld, materion iechyd a diogelwch ar y safle, pa gyfleusterau sydd ar gael a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y dyfodol, i ble mae'r orsaf drenau neu arhosfan bws agosaf.

Bydd yr ymwelwyr yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael mewn fformat sy'n hygyrch iddyn nhw. Mae disgwyliadau ymwelwyr yn gallu amrywio, yn dibynnu ar y math o leoliad a thirwedd. Mewn safleoedd mwy gwledig, sydd weithiau heb staff, mae'n bosib disgwyl tipyn o wybodaeth wrth y mynedfeydd ond efallai mai ychydig o wybodaeth fydd yn cael ei darparu ar y safle neu lwybr. Mewn achos fel hyn, byddai ymwelwyr yn disgwyl gallu cario gwybodaeth o gwmpas ar daflen, canllaw sain neu destun ffôn symudol.

Dangosyddion arfer dda

Gwybodaeth allweddol yn hygyrch i bob ymwelydd	• Gwybodaeth yn cael ei chynllunio yn ôl egwyddorion dylunio cynhwysol a Chymraeg Clir/Plain English. • Gwybodaeth yn defnyddio termau addas ac yn hyrwyddo amrywiaeth trwy'r amrywiaeth o bobl sy'n cael eu portreadu a'r materion sy'n cael eu hamlygu, e.e. toiledau niwtral o ran rhyw, cyfleusterau 'Changing Places', canllawiau i ymwelwyr mewn gwahanol ieithoedd. • Symbolau a lluniau gyda'r testun ysgrifenedig. • Dolenni clyw wedi'u gosod mewn canolfannau ymwelwyr, a rhai symudol yn cael eu defnuddio gan dywyswyr ac addysgwyr.
Gwahanol fformatau ar gael	• Gwybodaeth ar gael mewn fformatau fel Braille, Print Bras, sain a symbolau Widgit. • Dehongli mewn fformatau eraill heblaw am destun ysgrifenedig, gan gynnwys cyffwrdd.
Canllaw mynediad ar gael	• Canllaw Mynediad yn cynnwys manylion pwysig am hygyrchedd y safle, neu gasgliad o safleoedd.
Gwybodaeth wedi ei gosod mewn mannau da	• Gwybodaeth ar y safle, e.e. byrddau arddangos, ar uchder ac ongl lle mae plant, defnyddwyr cadair olwyn a phobl byr yn gallu eu defnyddio. • Taflenni a gwybodaeth gludadwy arall mewn lleoliadau hygyrch, e.e. cownteri mae defnyddwyr cadair olwyn yn gallu eu cyrraedd. • Taflenni'n cynnwys map sy'n dangos pellter, graddiant, ble mae'r seddi ac unrhyw rwystrau neu beryglon. Dylai symbolau, enwau nodweddion a gwybodaeth arall fod yr un fath ar arwyddion y safle. Gallai gwybodaeth dda ar daflen glir leihau'r angen am gymaint o arwyddion.
Hawdd ffeindio'r ffordd	• Gwybodaeth dda yn y mannau penderfynu pwysig fel bod pob yn gallu ffeindio'u ffordd o gwmpas.
Teithiau tywys yn hygyrch	• Iaith Arwyddion Prydain sylfaenol a dolenni clyw ar gael ar gyfer teithiau tywys.

Datblygu gwybodaeth ar y safle

Creu polisi gwybodaeth hygyrch: Mae hwn yn ymrwymiad i ddylunio hygyrch ac i sicrhau bod ymwelwyr gyda gwahanol anghenion yn cael mynediad i wybodaeth sy'n cwrdd â'r anghenion hynny. Mae angen i hyn gynnwys canllawiau dylunio sy'n cael eu rhannu gyda dylunwyr mewnol ac allanol, ac mae angen i'r polisi gael ei gynnwys yn y canllawiau Brand, briffiau dylunio gwefan ac ati. Mae'n bwysig anelu am i'r holl wybodaeth fod mor hygyrch â phosibl, drwy er enghraifft ddefnyddio ffontiau mwy a chynlluniau clir, a bod fformatau eraill, fel print bras a symbolau Widgit ar gael.

Ffeindio'r ffordd: Mae mynd ar goll yn poeni llawer o bobl wrth ymweld â chefn gwlad. Mae cyfarwyddiadau da yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ar lwybr neu mewn rhannau mwy anghysbell o safle. Does dim angen i hyn fod ar ffurf arwyddion bob amser gan fod llwybrau wedi'u diffinio'n glir a disgrifiadau da o lwybrau hefyd yn helpu pobl i ffeindio'u ffordd. Beth am ofyn i rywun nad ydyw'n adnabod y safle brofi'ch arwyddion?

Gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd: Gwnewch yn siwr fod arwyddion a dehongliadau'n rhydd o blanhigion a rhwystrau, blerwch gweledol a dirywiad cyffredinol. Gwnewch yn siwr fod y wybodaeth yn gyfredol, e.e. bod dolenni'r we yn dal i weithio.

Defnyddio mwy o arwyddion a dehongli sydd ddim yn destun ysgrifenedig: Defnyddio symbolau, pictogramau, brasluniau a ffotograffau gan ddibynnu llai ar destun ysgrifenedig. Ceisio defnyddio technegau ehangach i ddehongli, e.e. archwilio gwrthrychau drwy gyffwrdd, recordiadau sain a phrofiadau trochi.

Gweithio gyda chymunedau lleol: Mae'n bwysig gweithio gyda grwpiau lleol er mwyn i'ch gwybodaeth fod yn addas ar gyfer eich cymuned leol. Er enghraifft, gallai hyn olygu tynnu sylw at ieithoedd penodol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol eich ardal leol.

Creu canllaw mynediad bach cyfleus: Mae'n bwysig cael rhywbeth y gall pobl ei bigo fyny wedi cyrraedd y safle, sy'n darparu gwybodaeth heb ddibynnu ar staff. Yn ogystal â darparu gwybodaeth, mae canllawiau o'r fath yn dangos i ymwelwyr bod disgwyl iddynt fod yno. Gallai canllaw fel hyn gynnwys gwybodaeth bwysig am fynediad fel toiledau, caffis, pwyntiau gwybodaeth, cadeiriau olwyn ac ati.

Braille a phrint bras: Gallai copïau Braille a chopïau caled Print Bras fod ar gael i'w benthyca, ond gan fod darllen canllaw fel hyn yn cymryd amser yn ystod ymweliad gallai fod yn fwy defnyddiol anfon copïau allan cyn yr ymweliad. Gellir gwneud hyn ar gais, am ddim, drwy gynllun Erthyglau ar gyfer y Deillion (Post Brenhinol).

Gwybodaeth argraffu ar alw: Mae hwn yn ddewis hyblyg sy'n defnyddio dull argraffu ar alw. Mae lle y gellir gwneud hyn yn dibynnu ar ble mae staff/cyfleusterau ar gael, mewn Canolfan Ymwelwyr mwyaf tebyg, ond efallai y byddai canolfan gymunedol yn cydweithio safle hefyd. Mae darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau fel hyn yn gwneud i ymwelwyr deimlo'u bod yn cael croeso, a bod eu hanghenion yn cael eu hystyried. Gallai hyn gynnwys fersiynau Print Bras, Hawdd a Widgit o wybodaeth ddehongli, llwybrau a deunyddiau addysgol. Mae'n hawdd diweddaru'r cynnwys a does dim angen talu am argraffu a storio copïau caled.

Deunyddiau Sain: Mae darparu gwybodaeth sain yn dileu'r angen am ddeunyddiau eraill i ryw raddau (eithriad amlwg i hyn yw gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr â nam ar eu clyw). Mae'n ffordd dda o wella gwybodaeth i ymwelwyr ond mae'n bwysig gwneud yn siwr bod apiau a deunyddiau clywedol eraill yn ystyried materion hygyrchedd.

Cyfathrebwyr: Mae pobl sy'n gweithio fel tywyswyr a cheidwaid yn ffynonellau gwych o wybodaeth. Mae hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb yn helpu staff i gynnig y gwasanaeth a'r cyngor gorau i ymwelwyr.

Symbolau ac enwau

Mae enwau'n dylanwadu ar ba mor hawdd mae ymwelwyr yn ffeindio'u ffordd o gwmpas. Mae enwau'n tueddu i fod yn fwy cofiadwy os yw pobl yn gallu eu cysylltu â defnydd y lle (e.e. caffi) neu naws y lle (e.e. Ogof Dywyll). Mae'n rhaid dysgu enwau eraill, ac mae hyn yn haws os yw'r enwau'n fyr ac yn syml. I ymwelwyr sydd â heriau deallusol, fel dyslecsia neu golli cof, mae hyn yn ychwanegu haenen arall o gymhlethdod.

- Dylech osgoi enwau rhy eiriog neu gymhleth (bydd enwau hir hefyd yn fwy anodd eu defnyddio ar fapiau a gwybodaeth i ymwelwyr) a cheisio defnyddio enwau sy'n hawdd eu cyfleu drwy ddelweddau/symbolau yn hytrach na geiriau'n unig

- Byddwch yn gyson - defnyddiwch yr un enwau yn yr holl ddeunydd ymwelwyr, o'r wefan i bamffledi ac arwyddion
- Gwnewch cyn lleied o newidiadau â phosibl i enwau sydd wedi sefydlu'n dda
- Ceisiwch sicrhau bod gan enwau gysylltiad gyda swyddogaeth neu ymdeimlad o le er mwyn helpu pobl i ymdeimlo â'r lle a chofio'r enwau.

Esiampl: gwybodaeth i ymwelwyr

Cyhoeddodd Cyngor Sir Caint becyn o daflenni Walks for All in Kent and Medway. Cafwyd y cyngor canlynol o ganlyniad i'r prosiect:

- Pan fyddwch yn cyflogi dylunydd graffeg, ceisiwch ddod o hyd i un sydd o ddylunio ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ddylunwyr briff yn unol â chyngor a ddarperir gan UK Association for Accessible Formats (http://www.ukaaf.org)
- Mae cyferbyniad amlwg rhwng testun a chefndir yn angenrheidiol. Gall llungopïo taflen liw mewn du a gwyn ddangos os yw'r wybodaeth yn anodd i'w darllen.

Dylech osgoi termau fel 'mynediad rhwydd' a 'hygyrch i gadeiriau olwyn'. Fe wnaeth Cyngor Sir Caint ddarganfod y gallai defnyddio geiriau fel 'rhwydd' godi disgwyliadau afrealistig a pheri siom ymhlith rhai ymwelwyr.

Astudiaeth achos: Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian - gwneud y dewis yn hawdd!

Wedi gweithio mewn cartref gofal, roedd Paul Thomas, Rheolwr Arlwyo'r Ganolfan Ymwelwyr, yn ymwybodol iawn o ba mor bwysig yw hi i wneud yn siwr bod pobl ag anawsterau lleferydd, iaith a dysgu yn gallu cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n gyfforddus iddyn nhw. Mae caffi Bwlch Nant yr Arian, sy'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan grwpiau cymorth lleol a rhanbarthol ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu yng Ngheredigion. Drwy weithio'n agos gyda Therapydd Iaith a Lleferydd y Bwrdd Iechyd lleol, Non Elias, sylweddolodd Paul fod yna ffordd hawdd o wneud y caffi'n fwy croesawgar.

Paul Thomas

Roedd Paul eisoes wedi cael hyfforddiant yn nhechnegau Cyfathrebu Llwyr sy'n seiliedig ar wneud gwybodaeth yn hygyrch gydag arwyddion a symbolau. Gweithiodd gyda Non a'i defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dylunio bwydlen newydd ar gyfer y caffi gan ddefnyddio arwyddion a symbolau 'Makaton'.

Cafodd y fwydlen newydd ei lansio yn 2016 ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn gan grwpiau cymorth lleol, rhieni sydd â'u plant heb ddysgu darllen eto, ymwelwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw ac ymwelwyr sydd â'u hwyrion a'u hwyresau ag anawsterau dysgu, neu sydd â nam iaith a lleferydd eu hunain.

Mae'r fwydlen wedi cael derbyniad hynod o bositif ac mae Non a'i thîm wedi ennill Gwobr Tîm Bwrdd Iechyd Hywel Dda - sefyllfa ardderchog ble mae pawb wedi elwa.

Dywedodd Paul Thomas "Mae gan bawb yr hawl i gael eu clywed a'u deall, petai ond er mwyn gallu gofyn am gwpanaid o de". Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu i wneud yr hawl hwn yn realiti, ac ym Mwlch Nant yr Arian rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd

7. Dychwelyd adref

Mae profiad cadarnhaol wrth adael safle ar ddiwedd eu hymweliad yn bwysig i bob ymwelydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran geirda llafar cadarnhaol - mae ymchwil wedi dangos bod llawer o ymwelwyr sy'n cael eu heffeithio gan rwystrau i fynediad yn cael cyngor ar lafar (ac yn gynyddol, yn defnyddio adolygiadau ar-lein) gan bobl eraill i'w helpu i benderfynu ble a phryd i ymweld.

Mae angen meddwl yn ofalus am lwybrau ymadael, gan wneud yn siwr bod pob ymwelydd yn gallu ffeindio'i ffordd allan yn hawdd. Mae'n bwysig hefyd ystyried materion fel mynediad i doiledau, amseriad trafnidiaeth gyhoeddus, mannau cyfforddus lle gall ymwelwyr gael eu codi gan dacsi neu gar, a gwybodaeth y gall pobl fynd o'r safle gyda nhw.

Dangosyddion arfer dda

Allanfeydd wedi'u harwyddo'n glir ac yn hawdd i'w defnyddio	• Allanfeydd wedi eu nodi'n glir ar fapiau a gwybodaeth i ymwelwyr, ac wedi'u harwyddo' dda ar y safle. • Cyfleusterau fel caffis, canolfannau ymwelwyr a thoiledau yn hygyrch ac yn hawdd eu ffeindio. • Pawb yn defnyddio'r un allanfeydd (h.y. dim allanfeydd ar wahân ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn).
Allanfeydd o fewn cyrraedd hwylus i safleoedd parcio a chludiant cyhoeddus	• Parcio hygyrch yn agos at bwyntiau ymadael. • Cludiant cyhoeddus a mannau codi o fewn cyrraedd hwylus i allanfeydd.
Darpariaeth dda o seddi a chysgodi	• Seddi a mannau cysgodi yn y mannau codi a mannau eraill lle mae ymwelwyr yn debygol o fod yn aros.

Gweithredu

Mae'r adran hon yn ymwneud â gwneud y gwelliannau mynediad. Dylid blaenoriaethu a chostio gwelliannau arfaethedig, fel bod posibl eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o flynyddoedd. Mae enghraifft o gynllun gweithredu yn Atodiad 3

Gosod blaenoriaethau

Efallai y bydd amgylchiadau lleol sy'n helpu i osod blaenoriaethau, fel arian partneriaeth ar gyfer llwybrau neu gyfleusterau, neu gynlluniau i ddarparu cludiant cyhoeddus hygyrch i leoliadau newydd. Dylid ymgynghori eto ynglŷn â blaenoriaethau a ymgynghorwyd arnynt yn gynharach yn y broses ymgynghorir. Drwy wneud hyn gall sefydliad fod yn hyderus eu bod y blaenoriaethu ar sail anghenion pobl leol.

Mae'r canllaw hwn yn pwysleisio bod mynediad yn gadwyn o ddigwyddiadau, ac er mwyn bod yn fwyaf effeithiol, y dylai gwaith mynediad gael ei ystyried fel rhan o'r gadwyn honno. Wrth ddatblygu cynllun gweithredu mae'n bwysig edrych ar drefn gwneud y gwelliannau mynediad. Er enghraifft, mae'n gwneud synnwyr i wella'r mynediad o'r safle bws i'r safle ei hun cyn gwella'r gwasanaeth bws. Mae'n bwysig cynllunio gwelliannau mynediad fel pecynnau gwaith ac ystyried y posibiliadau sydd ar gael o ganlyniad i waith sydd wedi ei wneud neu ei gynllunio eisoes. Mae'n bwysig peidio ag anghofio eitemau blaenoriaeth isel a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Esiampl: gosod blaenoriaethau

O edrych ar wybodaeth staff presennol, mae'n amlwg fod maes parcio yn y goedwig gyda golygfeydd da, ardal bicnic hygyrch a thoiledau hygyrch yn atyniad yn bardo. Dylai cyhoeddusrwydd a gywbodaeth hyrwyddo hyn. Dylai arwyddion ffordd ei gwneud hi'n haws dod o hyd iddynt.

Os oes llwybr cylchog Parth A o'r maes parcio hwn drwy'r coed yn cael ei ddatblygu, yna dylai gwybodaeth newydd gael ei gynhrychu er mwyn hyrwyddo hyn. Efallai bod angen cynyddu nifer y lleoedd parcio hygyrch er mwyn darparu ar gyfer cynnydd disgwyliedig yn nifer yr ymwelwyr. Efallai y bydd angen newid lleoliad y lleoedd parcio hygyrch er mwyn bod yn fwy agos at ddechrau'r llwybr. Dylid cysylltu â chwmnïau trafnidiaeth lleol er mwyn gwella gwasanaethau i'r rhan hon o'r safle. Mae'r llwybr cylchog hwn yn rhoi mynediad i fywyd gwyllt diddorol. Dylai esboniadau hygyrch gael eu cynllunio sy'n gwella'r profiad i ymwelwyr.

Gwneud y gwaith

Ar ôl gosod blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau i lwybrau, safleoedd a chyfleusterau sydd â chyllideb eisoes ar gael, gellir cynnwys y gwaith mewn cynlluniau gweithredu blynyddol. Yna bydd pob prosiect yn cael ei weithredu yn yr un ffordd ag y mae'r sefydliad yn trefnu ei raglen waith a gweithgareddau arferol.

Os yw'r gwaith yn cael ei gontractio allan, mae'n bwysig bod y contractwyr yn ymwybodol o faterion mynediad a'u bod yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Gall fod yn briodol rhoi cymal yn y contract er mwyn sicrhau hyn. Dylai contractwyr gysylltu â grwpiau lleol, megis grŵp mynediad, er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl waith arfaethedig yn cwrdd â gofynion gwahanol ymwelwyr. Mae'n bosibl y gall grwpiau cymunedol lleol wirfoddoli i helpu gyda gwaith (e.e. gyda'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth - TCV) ac mae cynnwys grwpiau gwirfoddol fel hyn yn gallu helpu i greu ymdeimlad o berchnogaeth ac felly y bydd mwy yn defnyddio'r safle wedi iddo gael ei wella.

Mae'n bwysig uno gwahanol ddarnau o waith mynediad gan yn aml mai yn yr ardaloedd rhwng gwahanol rannau o'r safle y mae rhai o'r rhwystrau mwyaf. Dylid rhoi sylw'n arbennig i ardaloedd sy'n pontio lleoliadau sydd o dan reolaeth wahanol i'w gilydd, er enghraifft, yr ardal rhwng maes parcio sy'n eiddo i awdurdod lleol a gwarchodfa natur sy'n eiddo i ac yn cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

Cynnal a chadw

Dylid cynnal a chadw llwybrau, cyfleusterau a gwybodaeth yn ôl egwyddorion LRA.

Lle mae angen gwneud gwaith cynnal llwybrau neu rannau o lwybrau, dylid gwneud hynny i'r safon uchaf. Dylid defnyddio cynnal a chadw LRA i wella gwybodaeth, cyfleusterau a llwybrau sydd mewn lleoliadau neu barthau is yn raddol drwy eu cynnal a chadw i safon uwch.

Dylai'r rhan fwyaf o waith adeiladu fodloni neu wella ar y safonau Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu. Mae Rhan M o'r Ddogfen Gymeradwy a BS8300 yn cynnwys canllawiau dylunio defnyddiol.

Gwerthuso a monitro

Dylid ystyried gwerthuso yn ystod cam cynllunio'r ymgynghoriad, fel bod y gweithdrefnau'n cael eu cytuno ar y cychwyn.
Dylid gwerthuso er mwyn:

- Adolygu llwyddiant gwelliannau i lwybrau, safleoedd a chyfleusterau, a'r wybodaeth a ddarparwyd
- Adolygu sut i barhau i wella mynediad

Mae gwerthuso'n mesur effeithiolrwydd rhywbeth yn erbyn amcanion penodol. Felly gellir gwerthuso er mwyn mesur effeithiolrwydd:

- Gwelliannau i safle neu lwybr unigol, neu welliannau cyffredinol i fynediad ffisegol ardal
- Gwelliannau i gyfleusterau
- Gwybodaeth sydd newydd ei chynhyrchu
- Ymwybyddiaeth staff a sefydliad o faterion mynediad.

Bydd angen hyfforddi'r rhai sy'n gwerthuso ynglŷn â'r gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arsylwi defnyddwyr yn anuniongyrchol
- Arolwg o lwybrau allweddol drwy gerdded a thrafod y llwybrau, gan grŵp mynediad lleol neu grŵp cymunedol mewn partneriaeth â swyddogion perthnasol yr awdurdod
- Cyfweliadau neu holiaduron. Er mwyn gwerthuso gwybodaeth, gellir cynnwys ffurflen adborth gydag amlen wedi'i rhagdalu mewn cyhoeddiadau
- Defnyddio gwefannau i gael adborth
- Data, e.e. cynyddu o ran nifer a gwerth ymwelwyr
- Dulliau ansoddol gan ddefnyddio grwpiau ffocws strwythuredig a dadansoddiad o brofiadau, canfyddiadau a theimladau pobl.

Dylai dadansoddiad o ganlyniadau dulliau o'r fath roi gwybodaeth onest, glir a chywir. Mae hyn yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau am welliannau ar gyfer y dyfodol.

Monitro yw ailadrodd y broses o werthuso yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amcanion rheoli'n cael eu bodloni, bod cyflwr llwybrau a chyfleusterau'n cael ei gynnal a bod y wybodaeth yn gyfredol. Gallai gwaith monitro gynnwys gwerthusiadau bob chwe mis/ blwyddyn, yn dibynnu ar natur newidiol y llwybr neu'r safle a faint o ddefnydd sydd arno.

Atodiad 1: safonau a pharthau

Mae safonau mynediad a pharthau rheoli yn ymwneud yn bennaf â rhwystrau ffisegol i fynediad a'u heffaith ar bobl gyda symudedd cyfyngedig, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn. Hyd yn oed o fewn cylch gwaith ehangach y Ddeddf Cydraddoldeb, mae hyn yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â hygyrchedd llwybrau a lleoliadau, ond mae'n hanfodol hefyd ystyried y rhwystrau cymdeithasol a seicolegol sydd wedi cael eu hamlygu yn gynharach yn y canllaw hwn.

Dylid nodi nad oes safonau na manylebau statudol yn bodoli ar gyfer cefn gwlad a mannau agored. Mae'r safonau sy'n cael eu defnyddio yma yn seiliedig ar y safonau technegol a gytunwyd yn gyffredinol.

Safonau Mynediad BARM

Un o'r ymdrechion mwyaf i greu system genedlaethol o safonau ar gyfer mynediad ffisegol yng nghefn gwlad oedd Safonau Hygyrchedd Cefn Gwlad i Bawb BT (Ymddiriedolaeth Fieldfare, 1997 a 2005). Mae'r ddogfen hon yn nodi gwahanol safonau ar gyfer tri math o leoliad cefn gwlad - 'tirweddau trefol a ffurfiol', 'ymyl trefol a thirluniau a reolir' a 'thirluniau gwledig a gwaith' - gyda phedwerydd lleoliad, 'Gwlad Agored, lled-wyllt a gwyllt' heb fod yn ddarostyngedig i fanylion technegol diffiniedig.

Er bod y safonau wedi eu defnyddio'n eang, mae rhai gweithwyr cefn gwlad proffesiynol yn teimlo bod y safonau ar gyfer y 'dirwedd wledig a gwaith' yn afrealistig ar gyfer llawer o lwybrau cefn gwlad oherwydd nodweddion naturiol megis llethrau, neu oherwydd yr holl fuddsoddiad fyddai ei angen. Mewn ymateb i hyn, roedd y canllaw 'BARM' gwreiddiol yn cynnwys dwy safon ychwanegol o'r prosiect Sense and Accessibility [3].

Parthau rheoli

Mae'r canllaw hwn yn nodi safonau yn ymwneud â thri Pharth Rheoli er mwyn eich helpu i adolygu mynediad ar hyn o bryd a chynllunio gwelliannau. Mae'n bwysig cofio bod mynediad llawn i bob ymwelydd, boed yn anabl neu beidio, yn dibynnu ar holl rannau'r Gadwyn Fynediad, megis gwybodaeth a thrafnidiaeth, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y canllaw hwn.

A: Yn darparu mynediad ar gyfer y **rhan fwyaf** o bobl, yn enwedig rhai sydd â nam symudedd

B: Yn darparu mynediad i **lawer** o bobl, yn enwedig rhai sydd â nam symudedd

C: Yn darparu mynediad i **rai** pobl, yn enwedig rhai sydd â nam symudedd

[3] Roedd Sense and Accessibility yn adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn 2000 oedd yn cynnwys arweiniad polisi newydd ar gyfer llwybrau mewn perthynas â'r DDA

Tabl 1: Safonau mynediad ar gyfer gwahanol barthau

	Parth A Tirweddau trefol, ffurfiol ac a reolir (Parthau C4All 1 a 2)	Parth B Tirweddau gwledig, tir amaethyddol gyda hawliau tramwy cyhoeddus (Parth C4All 3)	Parth C Tir gwyllt ac agored heb rwystrau pwysig
Rhwystrau[1]	Dim grisiau na chamfeydd na rhwystrau ffisegol eraill yn cyfyngu ar fynediad	Dim grisiau na chamfeydd na rhwystrau ffisegol eraill yn cyfyngu ar fynediad	Dim grisiau na chamfeydd na rhwystrau ffisegol eraill yn cyfyngu ar fynediad
Arwyneb llwybrau[2]	Caled, cadarn, llyfn gydag ychydig iawn o gerrig rhydd (dim mwy na 5mm), ddim dros yr arwyneb cyfan	Caled a chadarn gydag ychydig iawn o gerrig rhydd (dim mwy na 10mm), ddim dros yr arwyneb cyfan	Llwybr wedi'i addasu o bosibl (ddim o reidrwydd yn galed ac yn gadarn ym mhob tywydd) gyda rhai cerrig hyd at 100mm. Gwreiddiau coed, tyllau a darnau byr (<10m) o rigolau o hyd at 100mm, yn achlysurol
Lled llwybrau[3]	O leiaf 1.2m	O leiaf 1m	O leiaf 815mm
Cyfyngiadau lled[4]	O leiaf 900mm am ddim mwy na 300mm ar hyd y llwybr, 1m am ddim mwy na 1.6m ar hyd y llwybr. Unrhyw gatiau o leiaf 1m.	O leiaf 815mm am ddim mwy na 300mm ar hyd y llwybr, 915mm am ddim mwy na 1.6m ar hyd y llwybr. Unrhyw gatiau o leiaf	O leiaf 815mm am ddim mwy na 300mm ar hyd y llwybr, 915mm am ddim mwy na 1.6m ar hyd y llwybr. Unrhyw gatiau o leiaf 1m.
Graddiant rampiau[5]	Dim mwy na 1:12	Dim mwy na 1:10	Dim mwy na 1:10
Landings ar rampiau mwy serth na 1: 20[6]	Codiad tir o ddim mwy na 750mm rhwng landings (er enghraifft, dylai landings fod pob 9m ar hyd rampiau o 1:12)	Codiad tir o ddim mwy na 950mm rhwng ‘landings’	Dim mwy na 950mm lle bo hynny'n ymarferol a gwybodaeth yn cael ei ddarparu
Bylchau yn yr arwyneb[7]	Dylai'r bwlch mwyaf yn yr arwyneb fod ddim mwy na 12mm o’i fesur ar draws llinell y llwybr	Dim mwy na 12mm o’i fesur ar draws llinell y llwybr	Dim mwy na 75mm o’i fesur ar draws llinell y llwybr
Cambr croes (llethr ar	Dim mwy na 1:50	Dim mwy na 1:35	1:25 ond gall llethrau croes a achosir gan

	Parth A Tirweddau trefol, ffurfiol ac a reolir (Parthau C4All 1 a 2)	Parth B Tirweddau gwledig, tir amaethyddol gyda hawliau tramwy cyhoeddus (Parth C4All 3)	Parth C Tir gwyllt ac agored heb rwystrau pwysig
draws llwybr)[8]			wreiddiau coed/tyllau/rhigolau fod yn fwy.
Pellter rhwng mannau pasio[9]	Un bob 50m o leiaf	Heb ei ffurfioli nac ag arwyneb, ond o leiaf un man pasio (2m x 2m) bob 150m	Heb ei ffurfioli nac ag arwyneb, ond o leiaf un man pasio (2m x 2m) bob 300m
Pellter rhwng mannau gorffwys[10]	Dim mwy na 100m	Dim mwy na 300m	Heb ei ffurfioli
Lefelau grisiau[11]	Dim mwy na 5mm	Dim mwy na 15mm	Dim mwy na 100mm
Twnnel cerdded clir[12]	O leiaf 1.2m o led x 2.1m o uchder	O leiaf 1m o led x 2.1m led o uchder	Torri llystyfiant hyd at o leiaf 1m o led x 2.1m o uchder
Ymylon[13]	I'w gweld yn glir	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 1: Nodiadau

1 **Rhwystrau:** Mae rhai rhwystrau, yn enwedig camfeydd a rhwystrau eraill tebyg, yn achosi cyfyngiadau sylweddol i bobl â nam symudedd. Bydd y rhain yn atal llwybr rhag cyrraedd unrhyw un o'r safonau a byddant yn aml yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, drwy naill ai eu tynnu neu eu hosgoi.

2 **Arwyneb llwybrau:** Yn ddelfrydol dydy llwybr ddim yn llithrig, mae wedi'i ddraenio'n dda, ac mae'n wastad. Dylid lleihau peryglon baglu fel gwreiddiau coed a cherrig ymwthiol, a dylai fod dewis o leiaf o gerdded/gwthio o'u cwmpas. Mae deunydd rhydd ar yr arwyneb yn cynyddu'r perygl o lithro a baglu, yn boenus i draed arthritig a heriol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae haenau o ddeunydd rhydd yn anodd ac yn aml yn amhosibl i gadeiriau olwyn, cerbydau symudedd a bygis.

3 **Lled llwybrau:** Mae lled llwybr yn effeithio ar ba mor hawdd y mae pobl yn gallu pasio'i gilydd, ac a ydy pobl yn gallu cerdded gyda'i gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd angen cerdded ochr yn ochr â chydymaith, ac ar gyfer cadeiriau olwyn a cherbydau symudedd.

4 **Cyfyngiadau lled:** Weithiau mae lled yn cael ei gyfyngu gan nodweddion parhaol megis giatiau, neu fylchau sydd â choed a waliau o boptu, ond gall y rhain fod yn rheswm dros feddwl am lwybrau neu gynlluniau amgen. Dylai gwelliannau mynediad anelu i gyrraedd y

canllawiau lleiaf rhwystriol a gyflwynir gan y Safonau Prydeinig ar gyfer Bylchau, Gatiau a Chamfeydd (BS 5709:2006).

5 **Graddiant rampiau:** Mae llethrau serth yn effeithio ar lawer o ymwelwyr, ond yn enwedig pobl sydd yn blino'n hawdd (fel rhywun sydd â chyflwr ar y galon) a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Weithiau gall fod yn fwy peryglus i bobl fynd i lawr nac i fyny llethrau.

6 **Landings:** Landings yw'r mannau gwastad sy'n darparu mannau gorffwys ar lechwedd hir. Mae'r rhain yn bwysig i bobl sy'n ei chael yn anodd i gerdded neu fynd yn eu cadair olwyn i fyny ac i lawr llethrau.

7 **Bylchau yn yr arwyneb:** Gall bylchau yn arwyneb y llwybr, oherwydd sianeli draenio a strwythurau eraill, fod yn rhwystr cyfan gwbl i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, a gallant beri trafferth i bobl sydd â chymhorthion cerdded.

8 **Cambr croes:** Mae llethrau croes yn heriol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â chydbwysedd gwael neu broblemau cydlynu. Gall llethrau mwy fod yn beryglus os ydynt yn arwain at ardaloedd o ddŵr agored neu fod cwymp serth oddi wrth ymyl y llwybr.

9 **Mannau pasio:** Mae'r rhain yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan bobl le i basio ei gilydd, yn enwedig pobl sydd â chadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio, a llwybrau sy'n cael llawer o ddefnydd.

10 **Mannau gorffwys:** Mae seddi a mannau gorffwys yn bwysig i ymwelwyr i gyd ac yn hanfodol ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu cerdded yn bell heb orffwys. Mae defnyddwyr cadeiriau olwyn hefyd angen llefydd i stopio a gorffwys.

11 **Lefelau grisiau:** Mae perygl i gerddwyr faglu dros rwystrau bychain fel gwreiddiau agored, cerrig ymwthiol, arwynebau anwastad a lefelau amrywiol ac maent yn peri anhawster i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn hefyd.

12 **Twnel cerdded clir:** Mae llystyfiant yn hongian dros lwybr yn gallu bod yn anghyfforddus neu'n beryglus i bobl â nam ar eu golwg. Mae llystyfiant pigog ar lefel y llygaid yn flaenoriaeth.

13 **Ymylon:** Mae ymylon amlwg (sy'n cyferbynnu'n dda gyda'u cefndir) yn gymorth i bobl â nam ar eu golwg. Gallant hefyd helpu i arbed pobl rhag baglu dros ymylon llwybrau wrth fentro oddi ar y llwybrau ffurfiol. Mae hwn yn ychwanegiad newydd i'r safonau.

Atodiad 2: Archwilio llwybrau

Yn ddelfrydol dylid archwilio'r holl lwybrau sydd wedi'u dewis yn erbyn y safonau uchaf posibl - yn unol â'r dull Mynediad Lleiaf Rhwystrol - gan fod hyn yn rhoi set ddata gyflawn o'u cyflwr. Bydd hyn yn helpu i nodi lle mae llwybrau sydd mewn un lleoliad neu barth mewn cyflwr gwell na'r safonau perthnasol a ble mae'r llwybrau sydd ddim yn cyrraedd y safonau hynny.

Pan fo'r adnoddau ar gyfer archwilio'n fwy prin, gellir archwilio llwybrau yn erbyn safonau'r lleoliad neu barth y rhoddwyd y lleoliadau penodol ynddo. Gall hyn fod yn gynt ac felly'n llai costus nac archwilio llwybrau yn erbyn y safonau uchaf. Mae llai o gofnodi gan mai dim ond pan nad yw'r llwybr yn cyrraedd y safon, o faint ac ymhle, y mae angen cofnodi. Er enghraifft, ar gyfer llwybr Parth B, bydd dim ond pan mae'r llwybr yn gulach na 900mm yn hytrach na 1000mm y mae angen cofnodi, ac yn y blaen.

Anfantais y dull hwn yw nad yw'r archwiliad yn dangos ble mae'r llwybr yn well na'r safon, ac o faint. Felly, mae'n bwysig bod archwilwyr hefyd yn gwneud nodiadau cyffredinol os yw'n ymddangos bod llwybr yn sylweddol well na safonau'r parth y rhoddwyd ynddo. Pan fydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, efallai y bydd llwybr o'r fath yn cael ei symud i leoliad neu barth sydd â safonau uwch ac efallai y bydd angen archwiliad pellach yn erbyn y safonau newydd hyn.

Dydy archwilio ddim yn hawdd; mae llawer i feddwl amdano ac mae llawer o benderfyniadau i'w gwneud, e.e. a yw arwyneb llwybr yn newid i'r graddau bod angen cofnodi'r newid. Mae archwilio hefyd yn cymryd amser - pellter o tua 6km i 8km sy'n cael ei archwilio mewn diwrnod.

O ystyried arwyddocâd ansawdd y data, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n cynnal archwiliadau wedi'u hyfforddi'n dda. Rhaid iddynt fod yn gwbl ymwybodol o pam fod yr archwiliad yn cael ei gynnal, o'r safonau y maent yn archwilio yn eu herbyn, a phwysigrwydd sicrhau cysondeb trwy archwilio yn yr un ffordd drwy'r amser. Mae elfen o oddrychedd mewn archwilio, megis penderfynu pa bryd mae cerrig ar lwybr yn newid o 'achlysurol' i 'rhywfaint'. Er mwyn casglu data sydd mor gyson â phosibl, argymhellir mai nifer gymharol fach o staff sy'n canolbwyntio ar wneud hyn dros gyfnod o amser, mewn ymgynghoriad â grŵp cynrychiadol o bobl anabl.

Cyfuniadau o feini prawf ar gyfer llwybrau

Pan fydd mwy nac un maen prawf yn digwydd gyda'i gilydd gall eu heffaith ar y cyd wneud llwybr yn fwy anodd ei ddefnyddio na phan fyddant i'w canfod yn unigol. Er enghraifft, mae'r cyfuniad o ris neu wreiddyn coeden ar lechwedd, ar gornel, er bod pob un yn unigol yn bodloni safonau'r lleoliad neu barth perthnasol, yn golygu bod rhywun sydd fel arfer yn gallu defnyddio llwybr yn y lleoliad neu barth hwnnw (pan na fydd meini prawf wedi cyfuno) yn cael trafferth defnyddio'r llwybr.

Dylai arfer dda olygu mai dim ond un maen prawf ddylid ei ganiatáu er mwyn bodloni'r safon, a'i wneud yn ofynnol gwneud gwaith adferol fel arall.

O ystyried y nifer fawr o gyfuniadau tebygol, mae'n amhosibl darparu gwybodaeth am eu heffaith o ran lleihau hygyrchedd llwybrau. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi data archwiliad, dylid ystyried effaith bosibl cyfuniad o feini prawf. Cyn penderfynu pa waith

gwella sydd ei angen er mwyn i lwybr gyrraedd y safon, argymhellir ymgynghori â phobl anabl, neu weithwyr proffesiynol sy'n eu cynrychioli, ar y safle er mwyn deall effeithiau cyfuniad o feini prawf, a sut i'w lleihau.

Enghraifft o ddosbarthu llwybrau i leoliadau neu barthau
Mae'r canlynol yn un enghraifft o system sgorio y gellid ei defnyddio i ddosbarthu llwybrau i barthau.

Llwybr/tir		Cysylltedd		Effaith ar gadwraeth neu'r tirlun		Y galw		Poblogrwydd	
Hawdd	3	Rhwng lleoliadau pwysig	3	Isel	3	Uchel	3	Uchel	3
Cymedrol	2	Gweddol bwysig	2	Canolig	2	Canolig	2	Canolig	2
Anodd	1	Ddim yn bwysig	1	Uchel	1	Isel	1	Isel	1

Sgôr:
- 12 – 15 Parth A
- 8 – 11 Parth B
- 5 – 7 Parth C

Ffynhonnell: Simon Melville yn By All Reasonable Means (2005).

Llwybrau a thir – asesu safon gyffredinol y llwybr gan ddefnyddio mapiau a gwybodaeth sydd ar gael eisoes. Cerdded y llwybr os oes angen.

Cysylltedd - adnabod y lleoliadau a'r nodweddion y mae'r llwybr yn eu cysylltu, gan ddefnyddio mapiau a gwybodaeth sydd ar gael eisoes. Bydd llwybr yn sgorio'n uwch os yw'n rhoi mynediad i leoedd pwysig, bod ganddo gysylltiadau da i drafnidiaeth a pharcio neu os oes cyfleusterau megis toiledau a thafarnau gerllaw.

Effaith ar gadwraeth neu'r tirlun - asesu effaith tebygol y gwelliannau mynediad ar dreftadaeth neu werth tirwedd, gan ddefnyddio gwybodaeth arbenigol os oes angen. Bydd mwy o effaith yn golygu sgôr is.

Y galw - mae angen archwilio ac ymgynghori â defnyddwyr ac â phobl fyddai'n hoffi defnyddio'r llwybr ond sy'n methu ar hyn o bryd. Penderfynu pa lwybrau sydd â'r galw mwyaf amdanynt gan ymwelwyr presennol a phosibl, er enghraifft trwy arolygon dalgylch.

Poblogrwydd – gellir asesu faint o ddefnydd a wneir o lwybr drwy arolygon ymwelwyr, gwybodaeth ac ymgynghori â staff.

Technegau archwilio
Mae dwy brif dechneg o archwilio llwybrau: defnyddio cyfrifiadur llaw sydd wedi'i gysylltu â derbynnydd System Leoli Fyd-eang (GPS) neu wneud archwiliad papur.

Pa adeg o'r flwyddyn ddylid archwilio
Mae manteision ac anfanteision o archwilio naill ai yn ystod y gaeaf neu'r haf, ond mae'n amlwg, pan fo nifer fawr o lwybrau angen eu harchwilio, ei bod yn anodd cyfyngu'r gweithgaredd hwn i naill adeg o'r flwyddyn neu'r llall.

Os fydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar adeg o'r flwyddyn pan nad yw cyflwr llwybrau ar ei waethaf, mae'n bwysig bod y ffaith hon yn cael ei hystyried wrth ddadansoddi'r data ac wrth ddarparu gwybodaeth ar sail y data hwn.

Atodiad 3: Enghraifft o gynllun gweithredu

Mae'r enghraifft hon o Gynllun Gweithredu yn dangos sut y gellir pennu ardaloedd i'w blaenoriaethu, a'u paru â chamau gweithredu cyfatebol. Mae amserlenni a chostau'n ychwanegiadau defnyddiol. Gellir defnyddio'r enghraifft fel sail i greu cynlluniau gweithredu ar gyfer safleoedd eraill.

Ardal waith	Camau gweithredu
Canolfan Ymwelwyr Gwella mynediad i gyfleusterau (toiledau, seddi ac ati), arwyddion, gwybodaeth i ymwelwyr, gwasanaethau (siop, caffi ac ati) a'r ffabrig ffisegol, ar gyfer pob ymwelydd.	Archwilio gyda syrfëwr adeiladau/rheolwr a pharatoi cynllun gwella. Trefnu sesiynau adborth cymunedol gyda grwpiau ac unigolion lleol.
Ymwybyddiaeth staff a gwirfoddolwyr Sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr y sgiliau a'r profiad angenrheidiol er mwyn cefnogi'r ymwelwyr i gyd. Creu system barhaus er mwyn i'r staff presennol rannu'r sgiliau hyn gyda staff a gwirfoddolwyr newydd.	Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau er mwyn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Trefnu hyfforddiant Arwain y Dall er mwyn helpu ymwelwyr sydd â phroblemau golwg. Adolygu polisïau recriwtio a cyflogaeth.
Toiledau Blaenoriaethu darparu toiled neillryw, hygyrch, ar wahân.	Paratoi cynllun adnewyddu. Cyfeirio at safonau Rhan M a BS 8300: 2001.
Meysydd parcio Sicrhau bod gan feysydd parcio fannau parcio penodol wedi'u marcio'n glir ar gyfer ymwelwyr anabl, a man addas i ollwng ymwelwyr.	Adnewyddu marciau ac arwyddion presennol fel bod y mannau i'w gweld yn glir. Rhoi seddi a lle i gysgodi yn y man gollwng ymwelwyr. Cyfeirio at safonau Rhan M a BS 8300: 2001.
Llwybrau a mynediad ehangach Nodi a hyrwyddo llwybrau sy'n darparu'r mynediad rhwyddaf ac yn darparu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr hefyd. Pennu blaenoriaethau ar gyfer atgyweirio a gwella'r llwybrau sy'n bodoli eisoes.	Dosbarthu llwybrau i barthau - gweler y system sgorio yn Atodiad 2 Cynnal archwiliad er mwyn penderfynu pa lwybrau sy'n hygyrch ar hyn o bryd a rhwystrau ffisegol eraill i fynediad. Blaenoriaethu gwelliannau.

Chwarae

Gwella mynediad i gyfleusterau chwarae.	Cynnal archwiliad mynediad o'r holl strwythurau/meysydd chwarae ac arwynebau. Sicrhau bod llwybrau i/o ardaloedd chwarae mor hygyrch ag y bo modd a bod gan rywfaint o'r cyfarpar chwarae nodweddion hygyrch.

Darparu gwybodaeth

Gwella hygyrchedd gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys mwy o wybodaeth am hygyrchedd y safle a gwybodaeth mewn fformatau amgen.	Creu Canllaw Mynediad ar-lein i'w rannu gydag ystod lawn o ymwelwyr. Ymgynghori â grwpiau lleol er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd.
Gwella arwyddion a ffeindio'r ffordd ar y safle.	Cynnal archwiliad o arwyddion a dulliau o ffeindio ffordd presennol a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Dehongli

Sicrhau bod dehongli'n berthnasol i wahanol oedrannau, galluoedd a safbwyntiau diwylliannol. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu amlsynhwyraidd.	Cynnwys ystod o grwpiau lleol wrth adolygu'r dehongli ac er mwyn gwybod beth sydd angen ei ddatblygu. Defnyddio hwn fel cyfle i hel straeon a deunydd eraill fydd yn atgyfnerthu'r dehongli.

Digwyddiadau

Adolygu rhaglenni teithiau tywys a digwyddiadau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cynnwys gwahanol ddiddordebau, galluoedd a safbwyntiau diwylliannol	Adolygu hygyrchedd cyfleusterau ac amserlennu. Gweithio gyda grwpiau lleol er mwyn cynnal teithiau cerdded a digwyddiadau newydd i bobl na fyddai fel arfer yn cymryd rhan

Meithrin perthnasoedd

Cryfhau ac ehangu cysylltiadau gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau lleol.	Nodi grwpiau ac ysgolion sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan a threfnu digwyddiadau cymunedol er mwyn gwahodd cynulleidfaoedd newydd i ymgysylltu â'r safle.

Atodiad 4: Canllawiau cyhoeddedig

Mynediad i'r awyr agored a dylunio cynhwysol

A good practice guide to countryside access for disabled people (2005) Ymddiriedolaeth Fieldfare
Canllaw i helpu rheolwyr cefn gwlad wneud y mwyaf o'r cyfleoedd mynediad i gefn gwlad ar gyfer pobl anabl. Mae'r safonau mynediad cysylltiedig yn parhau i gael ei ddefnyddio fel meincnod ac mae'r canllaw wedi'i ymestyn i gynnwys Mynediad Lleiaf Rhwystrol, rhwydweithiau llwybrau, arolygon mynediad ac archwiliadau. Am ddim i'w lawrlwytho o http://www.fieldfare.org.uk/countryside-for-all/countryside-for-all-good-practice-guide/

Cymraeg Clir
Canllaw ymarferol ar gyfer ysgrifennu Cymraeg clir, hawdd ei ddeall www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/cymraeg_clir_

Plain English Campaign
Cyfeiriadur geirfa i'ch helpu i ysgrifennu Saesneg cliriach (www.plainenglish.co.uk/A-Z.html)

Easy Access to Historic Landscapes (2015) Historic England
Cyngor ar sut i wella mynediad mewn lleoliadau treftadaeth ac er ei fod ymateb i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n canolbwyntio ar ymwelwyr ag anableddau. Mae gwybodaeth werthfawr ar gyfer adeiladau yn y cyhoeddiad 'Easy Access to Historic Buildings'. Am ddim i'w lawrlwytho oddi ar wefan Historic England: https://historicengland.org.uk/images-books/publications/easy-access-historic-landscapes/

Symudoledd cynhwysol: Arweiniad i Ymarfer Gorau ar Fynediad i'r Isadeiledd i Gerddwyr a Thrafnidiaeth, 2002
Ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd trefol, a'r safonau mynediad uwch a amlinellir yn y canllaw hwn, ond mae'n darparu gwybodaeth werthfawr am ganllawiau a manylebau dylunio cynhwysol.
I'w lawrlwytho am ddim - fersiynau Cymraeg, Saesneg, .pdf a rtf ar gael https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-mobility

Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru
Pecyn cymorth arfer dda a gynhyrchwyd gan Anabledd Cymru yn 2010. Ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim o wefan Anabledd Cymru: http://www.disabilitywales.org/toolkit/cy/

Canllawiau mynediad y Sensory Trust
Arweiniad ar bob agwedd o ddylunio cynhwysol ac arferion hygyrch, o lwybrau, i seddi, chwarae a dehongli. Am ddim i'w lawrlwytho oddi ar wefan yr Sensory Trust: http://www.sensorytrust.org.uk/information/factsheets/index.html

Sign Design Guide, a guide to inclusive signage. Peter Barker a June Fraser, Sign Design Society a'r RNIB.

Canllaw hanfodol ar gyfer creu arwyddion clir
http://www.signdesignsociety.co.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=54%3Athe-sign-design-guide&catid=10&Itemid=19

Deddfwriaeth a dogfennau polisi

Deddf Teithio Llesol 2013.
http://gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/?skip=1&lang=cy

Rheoliadau Adeiladu 2010. Dogfen Gymeradwy Rhan M: Mynediad i Adeiladau a'r Defnydd Ohonynt. NBS (National Building Specifications), rhifyn 2004 gyda diwygiadau 2010. http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-m-access-and-use/?lang=cy

BS 8300:2009+A1:2010. Design of Buildings and their approaches to meet the needs of disabled people: Côd Ymarfer. Sefydliad Safonau Prydeinig.https://www.thenbs.com/PublicationIndex/documents/details?Pub=BSI&DocID=295005

BS5709:2006. Bylchau, Gatiau a Chamfeydd. Sefydliad Safonau Prydeinig.
https://www.thenbs.com/PublicationIndex/documents/details?Pub=BSI&DocID=278277

Mae Pittecroft Trust wedi cynhyrchu canllaw defnyddiol yn esbonio rheolau allweddol BS5709:2006 http://www.pittecroft.org.uk/5709.pdf

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CroW), Yr Archifau Cenedlaethol
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/contents

Deddfwriaeth statudol a dogfennau HMSO www.legislation.gov.uk

Côd Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 ar Wasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau. Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

Canllawiau Arfer Da DEFRA ar Strwythurau Llwybrau Cyhoeddus – canllawiau i awdurdodau lleol ar gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010
http://www.pittecroft.org.uk/structureguidance.pdf

Deall Canllawiau DEFRA ar Strwythurau Llwybrau Cyhoeddus – trosolwg gan Ymddiriedolaeth Pittecroft

http://www.pittecroft.org.uk/understanding.pdf

Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2012
http://planningguidance.planningportal.gov.uk/

Tir Mynediad Agored (Cymru), Cyfoeth Naturiol Cymru

https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/open-access-land/?lang=cy

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 – 2019, Cyfoeth Naturiol Cymru
https://www.naturalresourceswales.gov.uk/media/3618/strategic-equality-plan-2015-19-cym.pdf

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

Atodiad 5: Cysylltiadau

Mae'r sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol hyn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr ystod o nodweddion sydd wedi'u diogelu. Maent yn ffynonellau gwerthfawr ar gyfer arweiniad, enghreifftiau o arfer dda a rhwydweithiau. Gall y rhain hefyd ddarparu cysylltiadau defnyddiol os ydych yn bwriadu ymgynghori â'r gymuned, ac efallai y gallant eich cyfeirio at grwpiau a sefydliadau lleol.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyffredinol

Changin Places
http://www.changing-places.org/

Diverse Cymru
www.diversecymru.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
www.equalityhumanrights.com/en/commission-wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliad.cymru

Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
www.cydraddoldebhawliaudynol.wales.nhs.uk

Equiversal
www.equiversal.com

Adran Gwaith a Phensiynau
www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions

Widgit
https://www.widgit.com/

Cydraddoldeb Oedran

Age Cymru
www.ageuk.org.uk/cymru

Plant yng Nghymru
www.plantyngnghymru.org.uk

Street Games
www.streetgames.org

Cydraddoldeb i bobl anabl, gan gynnwys dementia ac iechyd meddwl

Action on Hearing Loss
www.hearingloss.org.uk

Disability Rights UK
www.disabilityrightsuk.org

Disabled Rambers
www.disabledramblers.co.uk

Disability Wales

http://www.disabilitywales.org/toolkit/wp-content/uploads/sites/3/Good-Practice-Guidance-Toolkit-E.pdf

Euan's Guide
https://www.euansguide.com/

Rhwydwaith Anableddau Dysgu, Awtistiaeth ac Anhwylderau Niwroddatblygiadol
www.ldancymru.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
www.adcymru.org.uk

Mencap Cymru
www.mencap.org.uk/cymru

Mind Cymru
www.mind.org.uk/about-us/mind-cymru

Sense Cymru
www.sense.org.uk

Cydraddoldeb Rhyw

Chwarae Teg
www.cteg.org.uk

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
www.wenwales.org.uk

Bi Cymru
www.lgbtconsortium.org.uk/directory/bi-cymru-wales

Cymdeithas Addysg ac Ymchwil Hunaniaeth Rhywedd
www.gires.org.uk

LGBT Foundation
https://lgbt.foundation/

Stonewall Cymru
www.stonewallcymru.org.uk

Unique Transgender Wales
www.uniquetg.org.uk

Wipe Out Transphobia
www.wipeouttransphobia.com

Cydraddoldeb mewn crefydd a chred

Cytûn
www.cytun.org

Cyngor Bwdaidd Cymru
www.buddhistcouncilwales.blogspot.co.uk/

Cyngor Hindwaidd Cymru
www.indiacentre.co.uk

Yr Archesgobaeth Gatholig
www.rcadc.org

Cynghrair Efengylaidd Cymru
www.eauk.org

Cyngor Rhydd-ffydd Cymru
www.cytun.org.uk/interfaithwales

Cymuned Bahái Cymru
www.bahai.org.uk

Cyngor Mwslemaidd Cymru
http://muslimcouncilwales.org

Cydraddoldeb hiliol

Black Environment Network (BEN)
www.ben-network.org.uk

Alltudion ar Waith (DPIA)
www.dpia.org.uk

Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru (SEWREC)
http://www.sewrec.wales/

Mosaic Cymru
www.cnp.org.uk/mosaic-wales

Cyngor Hil Cymru
www.racecouncilcymru.org.uk/

Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf
www.refweb.org.uk/

Cyngor a chyfarwyddyd ar Fynediad Awyr Agored

Accessible Countryside for Everyone
www.accessiblecountryside.org.uk

Action on Hearing Loss (y RNID gynt)
www.actiononhearingloss.org.uk

Age UK
www.ageuk.org.uk

Black Environment Network
http://www.ben-network.org.uk/index.asp

Centre for Accessible Environments
www.cae.org.uk

Centrewire (giatiau arbenigol)
www.centrewire.com/

Ymddiriedolaeth Fieldfare
www.fieldfare.org.uk

Mencap
www.mencap.org.uk

Mind
www.mind.org.uk

Cofrestr Genedlaethol Ymgynghorwyr Mynediad

www.nrac.org.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru
www.cyfoethnaturiol.cymru

Open Spaces Society

www.oss.org.uk

Paths for All
www.pathsforall.org.uk/

Pittecroft Trust

www.pittecroft.org.uk

Chwarae Cymru
www.chwaraecymru.org

Ramblers

www.ramblers.org.uk

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB)
http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1

Scope

https://www.scope.org.uk/Support/Disabled-people/local-advice/Wales
Scottish Natural Heritage
www.snh.org.uk

Sensory Trust
www.sensorytrust.org.uk

Thrive
www.thrive.org.uk

Tourism for All
www.tourismforall.org.uk

Visit Britain
www.visitbritain.com

Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yng Nghefn Gwlad
www.vscg.org

Menter Hygyrchedd y We
www.w3.org/wai

Atodiad 6: Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae'r egwyddorion yn cael eu dangos yma, ac mae mwy o fanylion ar gael ar ein gwefan:https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-work/how-we-work-natural-resources-management/?lang=cy

Rheoli addasol

Rheoli'n addasol drwy gynllunio, monitro ac adolygu gweithredoedd



Graddfa

Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu

Cydweithio ac ymgysylltu

Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu a chymryd rhan ynddynt

Cyfranogiad cyhoeddus

Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

Tystiolaeth

Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol chasglu tystiolaeth ynglŷn â materion y mae ansicrwydd yn eu cylch

Manteision lluosog

Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau

Camau ataliol

Cymryd camau i atal niwed sylweddol i ecosystemau

Hirdymor

Ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd

Meithrin gwytnwch

Ystyried gwytnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:

- amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
- y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
- graddfa ecosystemau;
- cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a sut y maent yn gweithredu);
- gallu ecosystemau i addasu.

Diolchiadau

Cyhoeddwyd y canllaw gwreiddiol ‘By All Reasonable Means’ yn 2005 gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad (Natural England erbyn hyn) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach). Cafodd ei gynllunio yng nghyd-destun Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) 2005.

Cynhyrchwyd y canllaw hwn yn 2017 gan y Sensory Trust mewn cydweithrediad â, ac ar ran, Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhan o gasgliad ehangach o bolisïau a chodau ymarfer sy’n cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn dangos eu hymrwymiad cadarnhaol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd o’u gwaith.

Mae'r cyhoeddiad yn seiliedig ar yr ymgynghoriad gwreiddiol gydag unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella a chynyddu mynediad i'r awyr agored. Bu rhagor o ymgynghori o ran cylch gwaith ehangach Deddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym yn ddiolchgar i’r rhai a roddodd o'u hamser a'u sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad sylweddol drwy'r broses adolygu. Diolch yn arbennig i Angie Contestabile, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd, Sense Cymru a Paul Thomas, Rheolwr Arlwyo Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Paratowyd y testun gan Jane Stoneham a Stuart Spurring, Sensory Trust, a'i olygu gan Rachel Parry, Sam Carpenter a Rosalind Owen, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Paratowyd y lluniau gan Stuart Spurring, Sensory Trust.

Cedwir hawlfreintiau’r lluniau gan y ffotograffwyr a nodir yn y testun.